# Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut

# Adroddiad Blynyddol 2017




*(Swyddogion Datblygu Dyffryn Camwy 2017 – Anne Jones, chwith a Jenny Jones, dde)*

**Rhisiart Arwel**

**Monitor Academaidd a Chadeirydd Cynllun Cymraeg Patagonia**

## CYNNWYS


1) Gorolwg Tud. 3 a 4

2) Llwyddiannau Allweddol. Tud 4.

3) Targedau 2017. Tud.5

4) Traweffaith y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau. Tud. 6 - 11

5) Sefydliadau Addysgol Patagonia. Tud. 12

6) Ysgolion Dwyieithog y Wladfa. Tud. 13 – 19

7) Y Gymraeg mewn Ysgolion cyfrwng Sbaeneg. Tud. 20

8) Dosbarthiadau Porth Madryn. Tud. 21

9) Dathlu 20 mlynedd Cynllun Cymraeg Patagonia. Tud. 22

10) Menter Patagonia. Tud. 23 - 31

11) Pigion o adroddiadau Swyddogion Datblygu 2017. Tud 32 – 37

12 Taith yr Urdd 2017. Tud 37 - 40

13) Papurau Bro Patagonia – Llais yr Andes a Clecs Camwy. Tud 41 - 44

14)  Pigion o Adroddiad y Cydlynydd Dysgu. Tud. 45 - 48

15 ) Astudiaethau Achos. Tud. 48 - 50

16 ) Tystiolaeth bersonol o effaith y Cynllun – Pigion o draethawd buddugol Grisel Roberts, yr Andes. Tud. 51 – 53

17) Argymhellion 2016: Adroddiad Cynnydd. Tud. 54 - 56

18) Argymhellion 2017. Tud 57




## GOROLWG

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg wedi bod yn hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, yr Ariannin er 1997.

Yn flynyddol, mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod o naw mis - rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr - yn gweithio ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy ddysgu ffurfiol mewn dosbarthiadau i bobl ifanc ac oedolion, yn nosbarthiadau'r tair ysgol ddwyieithog, Ysgol Uwchradd Cyfrwng Sbaeneg a thrwy weithgareddau cymdeithasol anffurfiol.

Mae Cydlynydd Dysgu parhaol o Gymru sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu hefyd wedi'i lleoli ym Mhatagonia.
Agwedd arall ar y prosiect yw rhwydwaith o diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Mae nifer o'r tiwtoriaid lleol yma wedi dod i weithio i'r Cynllun ar ôl iddynt eu hunain fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth ymweld â Chymru, mynychu cyrsiau Cymraeg a chymryd rhan mewn ymweliadau arsylwi ysgolion, rydym yn cynorthwyo i helpu i gynnal safonau addysgu a'r fethodoleg ddiweddaraf sydd ar waith ym Mhatagonia.

Partneriaeth yw Cynllun yr Iaith Gymraeg Patagonia, ac fe'i rheolir gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig, Cymdeithas Cymru Ariannin, Urdd Gobaith Cymru, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cyngor Prydeinig Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu Cynllun Cymraeg Patagonia, gyda'i swyddog presennol, Siôn James a'i ddirprwy Amy Perks.

Mae'n bleser hefyd cydnabod cyfraniad gwerthfawr Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor a Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth am y cymorth gydag addasu cyrsiau, hyfforddiant a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr o Batagonia ar y Cyrsiau Haf.

**Dull a maes llafur**
Rydym yn gweithio mewn tri dalgylch: yr Andes, Gaiman a Threlew. Mae'r Cynllun yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi i siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn cynnal y cyrsiau hyn yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac oedolion.

Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Blasu, Wlpan, Pellach, Uwch a Meistroli. Ar hyn o bryd, defnyddir cyrsiau a luniwyd gan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd y Cynllun yn cael defnydd o'r cyrsiau newydd ar gyfer oedolion sydd yn cael eu datblygu a'u paratoi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

**Cyllid**
Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Prydeinig Cymru a Chymdeithas Cymru-Ariannin yn ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o Raglen Addysg Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Chubut a chyrff eraill ym Mhatagonia yn cyfrannu cyllid hefyd i gefnogi'r gwaith o ddysgu Cymraeg a'r gymuned Gymraeg ehangach.

**Hanes**

Yn 2015, dathlwyd 150 o flynyddoedd ers i'r ymsefydlwyr cyntaf o Gymru gyrraedd Patagonia.
Mae Cymru a Phatagonia wedi'u huno gan draddodiad, hanes ac iaith. Dechreuodd yr ymsefydlwyr parhaol gyrraedd Chubut a'r ardaloedd cyfagos ar 28 Gorffennaf, 1865.
Daeth oddeutu 153 o ymsefydlwyr o Gymru drosodd ar y cwch gyntaf honno, y Mimosa.

Does dim ffigyrau dibynadwy ar gael am y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y Wladfa, ond ar ddechrau'r 21ain ganrif, amcangyfrifir bod tua 50,000 o boblogaeth Patagonia o dras Gymreig.

**Taith Arsylwi 2017**

Dyma'r daith y mae'r Monitor yn gallu profi ac arsylwi'r dysgu a thrafod gyda'r staff, y tiwtoriaid a'r gymuned yn ehangach er mwy cael darlun cyflawn o'r sefyllfa ar lawr gwlad, ond oherwydd diffyg cyllid, nid oedd yn bosib i'r Monitor Academaidd wneud taith Arsylwi i'r Wladfa eleni. Mae'r ffigyrau a nifer o'r sylwadau sy'n ymddangos yn yr adroddiad yma felly wedi eu derbyn yn ysgrifenedig gan swyddogion a thiwtoriaid y Cynllun.

## LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

1) Anfonwyd tri Swyddog Datblygu i Batagonia.

Un i'r Andes, 75% dysgu a 25% gwaith Menter Patagonia
Dau berson i'r Dyffryn, y ddau ohonynt yn dysgu am 75% o'u hamser a threulio 25% yr un ar waith Menter Patagonia.

2) Cyfanswm o **1126** o bobl ar gyrsiau Cymraeg,

3) Twf o **53%** yn niferoedd Plant Meithrin yn dysgu Cymraeg, yn Nyffryn Camwy a'r Andes

4) Twf yn Ysgol y Cwm, Trevelin, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol yr Hendre Trelew yn ogystal ag ehangu eu hadeiladau.

5) Ysgoloriaethau gwerth **£2000** yr un a gyllidir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn galluogi myfyrwyr o Batagonia astudio ar gyrsiau Cymraeg yng Nghaerdydd neu Aberystwyth.

6) Ysgoloriaeth Profiad Gwaith Urdd Gobaith Cymru er mwyn i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed o'r Wladfa gael cyfle o brofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg am gyfnod o saith wythnos.

7) Sicrhawyd gwerth **£5000** o adnoddau dysgu i'w rhannu ymhlith y sectorau addysg ar draws talaith Chubut.

8) Cyfrannu at gynnal nifer fawr o ddigwyddiadau gan sefydliadau a grwpiau gwahanol e.e. Yr Urdd, Capeli'r Dyffryn a'r Andes

# TARGEDAU 2017

1 Anfon 3 Swyddog Datblygu i addysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith Menter Patagonia.

Yn y Dyffryn penodwyd un tiwtor a fyddai'n arbenigo mewn datblygu addysg y sector cynradd, ac apwyntiwyd yr ail diwtor i weithio gyda sector yr arddegau ac oedolion. Yn yr Andes, penodwyd tiwtor i weithio gyda'r cyfnod cynradd, yr arddegau ac oedolion.

2) Cyflogi un Cydlynydd Dysgu llawn amser yn y Wladfa.

3) Cynorthwyo myfyrwyr o'r Wladfa i fynychu Cwrs yr Haf, Prifysgol Caerdydd neu Brifysgol Aberystwyth

4) Cynnal a chynyddu nifer y dysgwyr mewn gwersi Cymraeg

5) Dechrau'r drafodaeth am  addasu cyrsiau newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i Oedolion ar gyfer eu defnyddio ym Mhatagonia

6) Dechrau trafodaeth am gynllun strwythuredig i hyfforddi tiwtoriaid y Wladfa

**Gwireddwyd y mwyafrif o'r targedau uchod ond gwelwyd gostyngiad bychan yn niferoedd y dysgwyr eleni.**



# TRAWEFFAITH Y CYNLLUN

## YSTADEGAU

1 Cydlynydd Dysgu – Clare Vaughan (yr Andes)

1 Cydlynydd Gweinyddol – Luned Gonzalez (Dyffryn Camwy)

3 o Athrawon/Swyddogion Datblygu Patagonia (2 yn y Dyffryn ac 1 yn yr Andes):

**Nia Jones** (yr Andes) (75% addysgu a 25% Menter Patagonia)
**Anne Jones** (y Dyffryn ) (75% addysgu a 25% Menter Patagonia)
**Jenny Jones** (y Dyffryn) (75% addysgu a 25% Menter Patagonia)

32 o athrawon/tiwtoriaid lleol

### Nifer y dosbarthiadau

Mae **90 (91)** o ddosbarthiadau yn 2017


| **Gaiman** (yn cynnwys Dolavon) | **Trelew** (yn cynnwys Porth Madryn a Comodoro) + Hendre | **Yr Andes** (yn cynnwys Esquel a Threvelin) |
|---|---|---|
| **54** (46) | **14** (22) | **22** (23) |

### Nifer y dysgwyr:

| | **Gaiman (gan gynnwys Dolavon)** | **Trelew (gan gynnwys Porth Madryn, Comodoro)** | **Yr Andes** | ***CYFANSWM*** |
|---|---|---|---|---|
| **2017** | **758** | **165** | **203** | **1126** |
| 2016 | 873 | 185 | 212 | 1270 |
| 2015 | 739 | 200 | 281 | *1220* |
| 2014 | 722 | 251 | 201 | 1174 |
| 2013 | 657 | 171 | 157 | 985 |
| 2012 | 607 | 145 | 225 | 977 |
| 2011 | 582 | 133 | 131 | 846 |
| 2010 | 527 | 85 | 150 | 762 |
| 2009 | 474 | 76 | 153 | 703 |

**Niferoedd o ran haenau oedran y dalgylchoedd:**

| | Meithrin | Plant Cynradd (CA1) (Ôl feithrin) | Plant Cynradd (CA2) | Arddegau | Oedolion | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **110** (60) | **116** (141) | **102** (224) | **386** (390) | **44** (58) | **758** (873) |
| **Trelew** | **0** *+ Hendre 34* *(24 Hendre)* | **0** *+ Hendre 46* (69) | **10** *+ Hendre 25* (29) | **4** **(**0) | **46** (63) | **165** *60* *+ 105* *Hendre* (185) |
| **Yr Andes** | **52** (44) | **13** (11) | **80** (84) | **10** (11) | **48** (62) | **203** (212) |
| **Cyfanswm** | **196** *162 +* *Hendre 34* (128) | **175** *129 +* *Hendre 46* (221) | **217** *192 +* *Hendre 25* (337) | **400** (401) | **138** (183) | **1126** *1001 +* *Hendre* *105* (1270) |



## Sylwadau:

Mae'r niferoedd uchel yn y sector arddegau yn adlewyrchu'r gwaith da sy'n cael ei wneud unwaith yn rhagor gan y ddwy ysgol uwchradd yn ardal y Gaiman: Goleg Camwy ac Ysgol Aliwen. Mae'r Gymraeg yn cael ei chynnig ym mlynyddoedd 1 i 3 yn y ddwy ysgol (Blwyddyn 7, 8 a 9 yng Nghymru) ac yng Ngholeg Camwy, mae opsiwn parhau gyda'r Gymraeg ym mlynyddoedd 4,5 a 6 hefyd.

**1126** yw'r cyfanswm dysgwyr eleni.
Er bod gostyngiad o bron 13% oddi ar y llynedd, mae cynnydd o dros 12% ers dechrau'r cylch 3 blynedd ( 2013-2016). ( 987 o bobl yn 2013 ).

Roedd 573 yn dysgu yn 1997 sef blwyddyn swyddogol gyntaf y Cynllun, felly ers y flwyddyn honno, mae'r niferoedd wedi cynyddu gan 93.2%.

Mae'r cynnydd cyson yn ffigyrau'r Gaiman wedi'i gynnal a'i ymestyn eto eleni. Fel y nodwyd eisoes, mae hyn yn rhannol oherwydd sefydlu Ysgol Gymraeg y Gaiman, cyfraniad ysgol uwchradd Coleg Camwy ynghyd â dosbarthiadau Cymraeg mewn tair ysgol arall cyfrwng Sbaeneg yn y Dyffryn.

Wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 10 oed, mae llwyddiant Ysgol yr Hendre, Trelew yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd da yn ffigyrau Cynradd (CA1).

## Niferoedd o ran lefelau iaith - Oedolion

| | **Cyn Fynediad** | **Mynediad (Wlpan 1)** | **Sylfaen (Wlpan 2)** | **Canolradd (Pellach)** | **Uwch a Meistroli** | **Hyfedredd (Gloywi)** | **Cyf** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **3** (0) | **10** (29) | **5** (9) | **12** (8) | **5** (0) | **9** **(**12**)** | **44** (58) |
| **Trelew** | **0** (0) | **12** (30) | **11** (28) | **11** (0) | **4** (0) | **0** (5) | **38** (63) |
| **Yr Andes** | **7** (0) | **14** (29) | **15** (8) | **8** (8) | **0** (7) | **15** (10) | **59** (62) |
| **Cyfanswm** | **10** (0) | **36** (88) | **31** (45) | **31** (16) | **9** (7) | **24** (27) | **141** (183) |

Er bod ychydig o leihad eleni dylir edrych ar hyn yng ngoleuni'r cynnydd sydd wedi ei wneud dros gyfnod o bum mlynedd, ac mai dim ond 72 o oedolion oedd yn dysgu'r iaith yn ôl yn 2009.

2011 - 114
2012 - 137
2013 - 174
2014 - 268
2015 - 280

Gwelwyd mwy o bwyslais unwaith yn rhagor ar waith y sector cynradd ac uwchradd ar draws Chubut.

Mae gallu cynnig cymorth ychwanegol i'r ddwy ysgol ddwyieithog gymharol newydd - Ysgol y Cwm, Trevelin ac Ysgol Gymraeg y Gaiman - pan eu bod ar eu prifiant yn gyfraniad hynod o bwysig. Plant yr ysgolion yma - ynghyd ag Ysgol yr Hendre - yw ein gobaith ar gyfer y dyfodol. Dyma rieni'r cenedlaethau i ddod wrth gwrs, a'r gobaith yw y byddant hwythau yn eu tro yn anfon eu plant eu hunain trwy'r system addysg ddwyieithog yn y Wladfa.

Wrth fuddsoddi yn y cenedlaethau nesaf fel hyn y gobaith yw y gwelwn ffrwyth y llafur yn y blynyddoedd i ddod.

Bellach mae'r sector Meithrin yn cynhyrchioli bron **18%** o ddysgwyr y Wladfa, tra bod y sector Cynradd (CA1 a CA2) yn cynrychioli **33.6%** o'r dysgwyr.


O ran cymhariaeth, ar ddechrau'r Cynllun yn 1997 roedd 279 o oedolion yn dysgu. Fodd bynnag rhaid cofio roedd y Cynllun newydd ddechrau ar yr adeg honno ac oedolion oedd prif ffocws y gwaith a bron hanner ( 49% ) yr holl ddysgwyr.

Erbyn hyn, oedolion yw rhyw **13.2%** o holl ddysgwyr Y Wladfa.



## Oriau yn ôl y dalgylchoedd

| | Gaiman (yn cynnwys Dolavon) | Trelew (yn cynnwys Madryn) | Yr Andes (Esquel a Threvelin) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin (3 – 5 oed)** | **64.5** *(2awr mewn ysgol y Dalaith + 62.5 yn Ysgol Gymraeg y Gaiman)* | [52.5] (17 awr 30 mun x 2 = 35 awr) | **41 awr** | **105.5** *(+ 35 Hendre = 140.5)* |
| **Ôl-feithrin (CA1)** | **55.83** *(3.33 mewn ysgol y Dalaith 52.5 yn Ysgol Gymraeg y Gaiman)* | **7.5** Plant *allgyrsiol + [255 Ysgol yr Hendre]* | **11.15 awr** | **74.5** *(+ 255 Hendre = 329.5 awr)* |
| **Plant cynradd (CA2)** | **54.66** | **3** Plant allgyrsiol + *[(130 Hendre)]* | **13 awr** | **70.66** *(+ 130 Hendre = 100.66 awr)* |
| **Arddegau** | **28** | **2 awr** | **3.5 awr** | **33.5 awr** |
| **Oedolion** | **11 awr** | **24 awr** | **21 awr** | **56 awr** |
| **CYFANSWM** | **214 awr** | **36.5 awr** *[474 awr gan gynnwys Hendre]* | **89.66 awr** | **340.16 awr** |



**Sylwadau**:

Dim ond yn nalgylch Gaiman mae llawer o weithgaredd yn oedran yr arddegau. Y rheswm am hyn yw fod y Gymraeg yn orfodol yng Ngholeg Camwy (Uwchradd) o Flwyddyn 1 i 3 (blynyddoedd 7, 8 a 9 yng Nghymru) ac fel opsiwn wedyn ym mlwyddyn 4 i 6 (blwyddyn 10 i 12) . Mae Ysgol Uwchradd Aliwen hefyd yn dysgu'r Gymraeg i blant Blwyddyn 1 i 3.

Yn y talgylchoedd eraill, ni chynhelir gwersi Cymraeg ffurfiol yn ysgolion y Dalaith, dim ond darpariaeth allgyrsiol, anffurfiol sydd yn bodoli. Mae oedran arddegau yn gyfnod anodd i ddenu pobl ifanc i astudio iaith arall yn eu hamser hamdden prin, wrth gwrs.

Dim ond cyfrannu tuag at oriau Ysgol yr Hendre mae'r Cynllun. Mae eu horiau yn cael eu cynnwys yn y tabl uchod fel esiampl o'u darpariaeth ac er mwyn dangos y gweithgaredd pwysig sy'n cael ei wneud ganddynt.

Mae'r niferoedd yn CA1 yn cynnwys darpariaeth yr ysgolion cyhoeddus sydd yn dysgu Cymraeg fel 'gweithdy' gan amlaf - e.e. Ysgol Bryn Gwyn, Dyffryn Camwy, Ysgol 24 Esquel yn yr Andes.

Nid yw cyllid y Cynllun yn ddigonol i ariannu'r holl oriau dysgu Cymraeg yn Chubut. Er hynny, mae Swyddogion Datblygu'r Cynllun ar gael i sbarduno, cefnogi ac i gyfrannu at waith yr ysgolion a'r cymunedau fel ei gilydd,

Mae'r ddwy ysgol yn Nyffryn Camwy - Ysgol yr Hendre yn Nhrelew ac Ysgol Gymraeg y Gaiman - yn cyflogi athrawon o Gymru yn flynyddol ac yn ariannu prosiectau ac oriau eu hunain.

Mae cynlluniau gan Ysgol y Cwm yn Nhrevelin hefyd i gyflogi athro/athrawes o Gymru yn ystod 2018. Mae hyn yn amlwg yn newyddion gwych ac yn argoeli'n dda iawn ar gyfer y dyfodol. Mae'r hyn yn cael ei ariannu trwy haelioni unigolion a chymunedau yn y Wladfa ac yng Nghymru fel ei gilydd.

Rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr oriau dysgu wythnosol dros gyfnod o bum mlynedd, sef 93 awr 30 munud neu 38.7% er 2012.

340 awr 35 munud yn 2016

323 awr 45 munud yn 2015

301 awr 30 munud yn 2014

310 awr 40 munud yn 2013 ,

245 awr yn 2012

## SEFYDLIADAU ADDYSGOL PATAGONIA

**Coleg Camwy (ysgol uwchradd) y Gaiman** .

Mae Coleg Camwy yn cynnig Cymraeg ymhob dosbarth. Gan fod yr Ysgol yn derbyn plant sydd wedi mynychu'r ysgolion dwyieithog a´r dosbarthiadau Cymraeg i blant cynigir darpariaeth ar ddwy lefel. Mae dosbarthiadau i ddechreuwyr dan ofal  Caren Jones a Gabriel Restucha ac mae'r dosbarthiadau i´r rhai mwy rhugl eu Cymraeg o dan ofal Esyllt Nest Roberts. Yn ystod 2017 bu Anne Jones, un o Swyddogion y Cynllun Cymraeg yn cynorthwyo llawer yn y dosbarthiadau gan gyflawni gwaith amhrisiadwy.



**Caren Jones a Gabriel Restucha yn dysgu Cymraeg yng Ngholeg Camwy**



**Esyllt Nest Roberts gyda gwersi estynedig yn y Gymraeg yng Ngholeg Camwy**

Mae'n destun balchder mawr i'r Coleg bod un o´u disgyblion - Ricardo Javier Evans -  wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravell i fynychu Coleg Llanymddyfri am dymor.

## YSGOLION DWYIEITHOG Y WLADFA

Mae'r ysgolion cynradd sy'n cynnig addysg ddwyieithog Cymraeg/ Sbaeneg yn gwneud gwaith ardderchog yn Nhrelew, Gaiman a Threvelin.  Maent yn cynnig addysg o safon dda ac mae'r  staff yn frwdfrydig a gweithgar o dan amgylchiadau economaidd ddigon tynn. Cymaint bu'r twf yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae angen darpariaeth ychwanegol yn yr adeiladau. Bellach, mae'r tri sefydliad yn adeiladu ystafelloedd dysgu newydd ar hyn o bryd. Golyga hyn gryn ymdrech gan fod rhaid codi llawer o arian yn lleol i wireddu'r fenter.

(Adroddiad gan Luned Gonzalez, y Gaiman)

**Ysgol Gymraeg y Gaiman**




Agorwyd Ysgol Feithrin y Gaiman yn 1993. Cymaint bu'r cynnydd yn y galw dros y blynyddoedd fel yr agorwyd Ysgol Gymraeg y Gaiman yn 2013. Bellach mae 90 o blant yn cael addysg ddwyieithog yn y dre ac mae Swyddogion Datblygu'r Cynllun Cymraeg yn cynorthwyo'n flynyddol gyda'r gwaith. Jenny Jones oedd y Swyddog yn 2017.

Gan fod niferoedd y plant yn parhau i dyfu, mae'r ysgol, gyda chymorth ariannol Cyngor Tre'r Gaiman yn adeiladu dwy ystafell ddosbarth newydd ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin a fydd yn barod erbyn blwyddyn addysgiadol 2018.



**Adeiladu dwy ystafell ddosbarth newydd yn Ysgol Gymraeg y Gaiman**

**Ysgol yr Hendre**

Agorwyd Ysgol yr Hendre yn Nhrelew gyda 22 disgybl ar Fawrth y 6ed 2006. Bellach mae ganddi 104 o ddisgyblion, ac maent yn derbyn 3 awr a hanner o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddyddiol mewn dau adeilad yn y dre.




**Adeilad gwreiddiol Ysgol yr Hendre yn ardal Moreno, Trelew**

Oherwydd y cynnydd cyson, mae'r ysgol yn y broses o adeiladu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol a fydd yn neilltuo ystafell ddosbarth ar gyfer pob oedran ar draws yr ysgol am y tro cyntaf.



**Gwaith adeiladu'r ystafelloedd dosbarth newydd yn Ysgol yr Hendre**



**Rhai o blant yr Hendre yn cystadlu yn Eisteddfod yr Ifanc 2017**

**Ysgol y Cwm, Trevelin**




## Ysgol y Cwm, Trevelin. Meithrin - rhif: 1475. Cynradd - rhif: 1038

**Hanes yr ysgol**

Prosiect i ddathlu’r Canmlwyddiant a Hanner ers cyrhaeddiad y Cymry cyntaf i’r Ariannin er mwyn sefydlu'r Wladfa ydy’r ysgol a agorodd ei drysau am y tro cyntaf ar Fawrth y 9fed 2016 gyda 50 o blant Meithrin, mewn adeilad newydd yn Nhrevelin.
Gwthiwyd y prosiect ymlaen gan y Gymdeithas Gymraeg yn Nhrevelin fel cofeb byw i’r rhai ddaeth mor bell i gadw’r iaith a’r traddodiadau a byw mewn heddwch a rhyddid.

Ysgol ddwyieithog Cymraeg-Sbaeneg ydy hi, ond hyd yn hyn, nid ydym wedi derbyn yr un ddimai goch o help gan Lywodraeth Chubut tuag at gostau dodrefnu’r ysgol na thalu cyflogau’r athrawon er bod y Llywodraeth flaenorol wedi addo cyfrannu.

**Staff**

Yn 2016 roedd:

Prifathrawes - sydd wedi bod yn gweithio ad honorem

3 athrawes dosbarth - wedi’u hyfforddi o dan system yr Ariannin

3 cynorthwyydd dosbarth - yn cael ychydig o dal gan y Cynllun Dysgu Cymraeg a chyfraniad arall gan yr ysgol.

Hefyd, roedd athrawes gerddoriaeth ac athrawes Ymarfer Corff yn cael eu talu gan yr ysgol. Roedd yr ysgrifenyddes yn gweithio ad honorem a glanhawraig ran-amser. Hefyd daeth nain i mewn i ddysgu’r delyn yn wirfoddol, sef cyfanswm o 13 o bobl oedd yn gweithio er mwyn darparu addysg eang ddwyieithog. Erbyn y flwyddyn academaidd 2017, mae prifathrawes Meithrin wedi cael ei benthyg gan ei hysgol ac felly’n derbyn cyflog ac mae’r ysgrifenyddes bellach yn cael ei thalu gan yr ysgol. Mae’r glanhawraig erbyn hyn yn gweithio bob prynhawn ac mae athrawesau Meithrin a Chynradd yn cael eu cyflogi gan yr ysgol gyda chynorthwywragedd Cymraeg yn derbyn y mwyafrif o’u tal gan yr ysgol, tra bod y Cynllun Dysgu Cymraeg yn cyfrannu tuag at eu horiau.

| Cyfrifoldeb | Enw'r athrawes | Talu gan |
|---|---|---|
| Prifathrawes Ysgol Feithrin | Erica Hammond | Ar fenthyg gan yr ysgol lle'r oedd hi'n gweithio, felly cyflog yn dod gan y Llywodraeth ond heb sicrwydd o flwyddyn y flwyddyn os fydd hyn yn cael ei adnewyddu. |
| Ysgrifenyddes | Margarita Jones | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Plant 3 oed | Daniela Limache | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Plant 4 oed | Jessica Hopkins | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Plant 5 oed | Evangelina Davies | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Blwyddyn 1 | Claudia Mazziotti | Ysgol y Cwm |
| Cynorthwydd Iaith 3 oed | Jessica Jones | 14 awr gan y Llywodraeth ac Ysgol y Cwm yn talu'r oriau ychwanegol. |
| Cynorthwydd Iaith 4 oed | Ximea Roberts | Ysgol y Cwm |
| Cynorthwydd Iaith 5 oed | Nia Jones | Cynllun Dysgu Cymraeg |
| Athrawes Cerddoriaeth | Maria de Oro | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Ymarfer Corff | Camila Gomez Itxassa | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Dawnsio Gwerin | Jessica Jones | Ysgol y Cwm |
| Glanheuwraig | Silvia Roa | Ysgol y Cwm |
| Athrawes y Delyn | Marilyn Jones | Ad honorem |

Oherwydd bod dau godiad cyflog wedi bod yn ystod y flwyddyn i athrawon y dalaith, roedd rhaid codi'r ffi i'r rhieni hefyd, yn ogystal â chynnal digwyddiadau bob mis er mwyn codi arian. Cynhaliwyd cinio ar ôl Cymanfa Eisteddfod Trevelin, ffair bwyd, gwerthu cyw iâr a gwerthu pasta cartref, cynnal mate bingo a llu o weithgareddau eraill er mwyn cael digon o gyllid fel bod yr ysgol yn gallu gwneud ei gwaith bob dydd.

Y cyfanswm am y flwyddyn oedd 80,000 peso (rhyw £3000 arian Cymru - cyfradd Ionawr 2018) sydd yn golygu cyflog un athrawes am 9 mis mwy neu lai. Heb gymorth fel hyn a'r gefnogaeth gan Swyddog y Cynllun, ni fyddai'r ysgol yn gallu parhau gyda'r gwaith arbennig.

Ar nodyn mwy positif un o gynorthwywyr dosbarth Ysgol y Cwm oedd enillydd gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn' yn Eisteddfod y Wladfa 2017 sef Jessica Jones.

Roedd Jessica yn un o'r rhai cyntaf i ennill ysgoloriaeth trwy'r Cynllun Dysgu Cymraeg i fynychu cwrs dwys yng Nghymru ac ar ôl dychwelyd i'r Wladfa dechreuodd helpu gyda dosbarthiadau meithrin. Erbyn heddiw, mae'n ystyried hyfforddi fel athrawes o dan system addysg yr Ariannin, rhywbeth sydd yn ganmoladwy ac yn ganlyniad i'r profiadau mae hi wedi eu cael yng ngwahanol agweddau'r Cynllun Dysgu Cymraeg.



**Jessica Jones o'r Andes, enillydd medal Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod y Wladfa 2017**

**DISGYBLION**

Mae niferoedd y plant wedi cynyddu o 35 yn y flwyddyn gyntaf i 58 yn 2017, ac ar gyfer 2018 mae dros 100 o blant rhwng 3 a 7 oed wedi cael eu cofrestru yn barod. Mae hyn yn dangos bod diddordeb yn y math yma o addysg a bod y rhieni yn hapus efo'r hyn mae eu plant yn ei dderbyn.

Oherwydd y niferoedd a'r ffaith nad yw adeilad yr ysgol wedi ei gwblhau eto, rhaid gwahanu'r plant. Mae'r disgyblion Cynradd wedi bod yn mynychu yn y bore o 8 tan 13.00 tra bod Plant y Feithrin yn dechrau am 14.00 ac yn gorffen am 17.30. Mae pob diwrnod yn dechrau gydag amser cylch, codi'r baneri a chanu yn Gymraeg a Sbaeneg.

Tra bod y gwaith Meithrin yn canolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae fel bod y sgiliau a'r iaith wedi'u hintegreiddio, mae pwyslais mwy ffurfiol ar waith y lefel Cynradd gyda ffocws cynyddol ar sgiliau darllen ac ysgrifennu. Mae hyn yn gallu bod yn heriol o fewn system addysg y Dalaith, gan nad yw'n cydnabod addysg ddwyieithog fel modd addysgol!

Y syniad yw bod y ddwy iaith yn cyd-fyw'n naturiol o fewn yr ysgol a bod yr athrawon sydd yn gallu siarad Cymraeg yn gwneud hynny'n gyson gyda'r plant.



**Rhai o ddisgybion ac athrawon Ysgol y Cwm**

Un o nodweddion yr ysgol ydy bod hi yn hybu diwylliant y dref a bod y plant yn cael eu hannog i gynrychioli'r ysgol mewn digwyddiadau cyhoeddus. Roedd cyngerdd Nadolig eleni yn dyst i ddatblygiad y plant fel perfformwyr ac o ran yr iaith maen nhw'n gallu ei defnyddio. Roedd presenoldeb a llwyddiant y plant yn Eisteddfod Trevelin, Cyngerdd Pleidlais 30 Ebrill, Gŵyl y Glaniad, Eisteddfod Ysgol Puerto del Sol, Diwrnod Cerddoriaeth, Cyngerdd a gorymdaith 25 Tachwedd yn ganmoladwy iawn. Dathliwyd yn ogystal ddiwrnodau pwysig yn hanes y wlad a Chymru fel 25 Mai, 9 Gorffennaf, Diwrnod 'Shw mae Sut mae?' ac roedd seremoni diwedd y flwyddyn yn adlewyrchu iaith a diwylliant yr ysgol.

**Y DYFODOL**

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn anodd o ran gwleidyddiaeth y wlad a'r Dalaith ac yn ôl pob tebyg, bydd 2018 yr un mor heriol. Mae hynny'n golygu bod rhaid gweithio yn galetach i barhau gyda'r gwaith ardderchog sydd wedi ei wneud yn barod. Rydym mor falch bod dau o'r cynorthwywyr dosbarth wedi penderfynu dilyn cwrs hyfforddi athrawon o dan gyfundrefn addysg yr Ariannin ac mae'r ddau arall sydd yn astudio Cymraeg yn y dosbarthiadau Oedolion hefyd yn ystyried dod yn athrawon.

Mae tîm o athrawon a gweithwyr wedi cael ei sefydlu a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau'n sefydlog dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd Nia Jones o Gymru, a fu'n gweithio fel rhan o'r Cynllun Cymraeg am rai blynyddoedd yn aros fel athrawes Gymraeg llawn-amser yn yr ysgol a bydd hyn hollbwysig i ddatblygiad iaith y plant. Gobeithio bydd Swyddog Datblygu newydd y Cynllun Cymraeg yn gallu cyfrannu at y gwaith hefyd.

Bydd athrawes dosbarth newydd i Flwyddyn 2 - yn ffodus rhywun sydd yn siarad Cymraeg yn dda - felly bydd eisiau rhoi arweiniad iddi hi ar sut i wneud y mwyaf o'r iaith yn ystod ei gwaith bob dydd.

Byddwn yn parhau i chwilio am gyllid gan Llywodraeth Chubut i dalu am yr ochr Sbaeneg o'r ddarpariaeth a heb y cymorth y Cynllun Cymraeg ni fyddem yn gallu cynnig hanner y Gymraeg rydym yn llwyddo ei wneud. Ni fyddwn chwaith yn stopio edrych am fwy o gymorth a chyllid o Gymru.

Rydym angen ymestyn gwaith y cynorthwywyr iaith, rydym angen cydlynydd iaith llawn amser, rydym angen hyfforddi athrawon cynradd yr Ariannin i fod yn athrawon dwyieithog a mwy o hyfforddiant methodoleg plant bach i'r cynorthwywyr iaith.

Margarita Green (gyda chymorth Clare Vaughan) Trevelin Ionawr 2018



**Y gwaith o ehangu Ysgol y Cwm Trevelin yn mynd rhagddo**

## Y GYMRAEG MEWN YSGOLION CYFRWNG SBAENEG.

Mae'r Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i dysgu mewn sawl ysgol cyfrwng Sbaeneg ar draws talaith Chubut.
Un ohonynt yw Ysgol 24 yn Esquel. Yma, mae Diana Jenkins a Noelia Sanchez-Jenkins yn rhannu'r gwaith o gynnig gweithdai Cymraeg i nifer o grwpiau o blant ddeuddydd yr wythnos. Mae Nia Jones, Swyddog Datblygu'r Cynllun hefyd yn cynorthwyo gyda'r sesiynau yn yr ysgol

Mae'r gweithdai yn cynnwys elfennau o ddysgu iaith, themâu diwylliannol a dawnsio gwerin.



**Diana Jenkins yn cynnal gweithdy Cymraeg yn Ysgol 24 Esquel**

Yn Nyffryn Camwy, mae ysgol Uwchradd Aliwen yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg i flynyddoedd 1, 2 a 3 (Blynyddoedd 7, 8 a 9 yng Nghymru) o dan ofal Gabriel Restucha a Caren Jones.

Celeste Filiponi fu'n gyfrifol am y ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Gynradd Bryn Gwyn eleni.

## DOSBARTHIADAU CYMRAEG PORTH MADRYN

Mae darpariaeth reolaidd o ddosbarthiadau Cymraeg ym Mhorth Madryn o dan arweiniad Lorena Peralta.
Cynhelir y dosbarthiadau sawl gwaith yr wythnos, ac mae Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn cynorthwyo gyda'r dysgu a'r gweithgareddau yn fisol.



**Lorena Peralta gyda dosbarth Cymraeg rheolaidd yng Nghanolfan Toschke Porth Madryn**

Yn dilyn derbyn cyflenwad o adnodau addysgiadol newydd eleni, dan nawdd y Cynllun Cymraeg, aeth Lorena ati i drefnu cyfres o weithdai Cymraeg yn Amgueddfa'r Glaniad ym Madryn yn ystod gwyliau'r haf. Y bwriad oedd ceisio denu myfyrwyr newydd trwy gynnig sesiynau Blasu, ac i gynnig cyfle i fyfyrwyr y dosbarthiadau arferol barhau i ymarfer eu Cymraeg yn ystod gwyliau hir yr haf trwy brofi'r adnoddau newydd. Mae'n amlwg bod y sesiynau darllen, sgwrsio a chwarae gemau wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Dyma ddywed rhai o fynychwyr y gweithdai:

**Claudia Hume:** Dyn ni'n mwynhau ymarfer darllen, geirfa a dysgu geiriau newydd.
Gallwn ni'n siarad Cymraeg trwy'r amser.
Cawson ni amser da iawn
Diolch i chi am anfon y llyfrau yn y sgrabl.

**Erica Jaime:** Mae'r cyfarfod helpu i fi i ddysgu llawer o eiriau newydd, a trio darllen stori a deall beth sy'n cael ei ddweud. Dw i'n hoffi pasio amser gyda'r grŵp a chwarae gemau yn Gymraeg.

**Eduardo Marinho:** Dw i wrth fy modd yn dal dysgu Cymraeg yn yr haf gyda'r grŵp y dosbarth. Mae'r gemau a darllen yn pwysig iawn i mi am wella fy Nghymraeg. Bob amser dw i'n mwynhau'r cyfarfodydd - maen nhw yn addysgiadol a doniol. Mae'n braf cwrdd yn yr Amgueddfa yr glaniad, achos dyma'r lle ,mae'r sefydlwyr cyntaf yn glanio, felly mae'r profiad yn bendigedig.

# DATHLU 20 MLYNEDD CYNLLUN CYMRAEG PATAGONIA




Roedd 2017 yn flwyddyn nodedig yn hanes y Cynllun Cymraeg wrth iddo gyrraedd carreg filltir arbennig - 20 mlynedd o fodolaeth.

Ar waetha'r cyllid cyfyng sydd gan y Cynllun, mae ei ddylanwad wedi bod yn eang a phellgyrhaeddol.

Yn ymarferol ac yn seicolegol, mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wedi elwa'n sylweddol yn Nhalaith Chubut ac mae nifer fawr o brosiectau cyffrous wedi'u sefydlu a'u rhoi ar waith yn sgil sefydlu'r Cynllun Cymraeg nôl ym 1997.

Mae cynyddu nifer o bartneriaid y Cynllun yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf wedi ehangu ei ddylanwad a chynyddu ei gyrhaeddiad. Y llynedd, ymunodd Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol â phwyllgor y Cynllun. Mae'r Ganolfan bellach yn ariannu tair ysgoloriaeth flynyddol i alluogi myfyrwyr y Wladfa astudio ar gyrsiau Cymraeg yng Nghymru. Yn yr un modd, mae'r Urdd, un arall o'r partneriaid, bellach yn ariannu ysgoloriaeth profiad gwaith er mwyn galluogi pobl ifanc o Chubut gael profiad mewn gweithle Cymraeg ei iaith. Rydym yn ffyddiog bydd y rhestr partneriaethau yn cynyddu ac felly yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y blynyddoedd i ddod.

Un o'r digwyddiadau sy'n enyn y balchder mwyaf yn sgil sefydlu'r Cynllun yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf yw sefydlu tair ysgol ddwyieithog yn nhalaith Chubut. Mae bodolaeth Ysgol yr Hendre, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm yn brawf diamheuol o hyder a phenderfyniad newydd y cymunedau lleol ac yn waddol haeddiannol o waith diflino'r Cynllun yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.

Cynhaliwyd nifer fawr o ddigwyddiadau amrywiol ar draws Chubut i ddathlu pen-blwydd y Cynllun a chyflwynwyd llawer o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau yn enw Menter Patagonia.

Menter
PATAGONIA

Mae'r gwaith a wneir gan y tiwtoriaid lleol a Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn yr ystafelloedd dosbarth yn hynod o bwysig. Dyma wrth gwrs lle mae'r seiliau ieithyddol yn cael eu gosod mewn lle a'r camau cyntaf yn cael eu cymryd ar hyd y daith o ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Cyfrwng cyfathrebu yw iaith wedi'r cyfan ac mae angen creu cyd-destun i'w defnyddio a chyfleoedd i'w siarad. Mae cyfraniad Swyddogion y Cynllun yn cymdeithasoli'r iaith yn y cymunedau yn waith pwysig dros ben, a gellir dadlau ei fod cyn bwysiced â'r gwaith dosbarth mewn gwirionedd.

Er mai bodoli mewn enw yn unig mae Menter Patagonia bellach, mae ysbryd a gweledigaeth y Fenter yn fyw ac yn iach. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau'n fisol gan y Swyddogion er mwyn creu cyfleodd i ddysgwyr yr iaith i'w chaffael.

Gyda hyn fel uchelgais, aethpwyd ati yn 2009 i osod amcanion Menter Patagonia sef:

Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol - ymestyn ei defnydd cymdeithasol.

Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn:

Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i ddosbarth Cymraeg - o leiaf un sesiwn yr wythnos.

Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd - chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobïau ac ati (dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos).

Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).

Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion - cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd, grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio, grwpiau gwahanol hobïau, gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgyrsiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.

Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.

Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol - y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Mae cyllid gan y Cynllun i ran-gyflogi person ar gyfer gweithgareddau Menter Patagonia. Felly er mwyn sicrhau rhywfaint o bresenoldeb gan y Fenter, tri chwarter swydd (0.75) sydd rhwng y ddau ddalgylch mewn gwirionedd.

Treuliwyd 25% o amser Anne Jones a Jenny Jones ar waith y Fenter yn y Dyffryn a 25% o amser Nia Jones yn yr Andes.

**Gwaith Menter Patagonia yn y Cymunedau**

**Y Gaiman - Adroddiad Jenny Jones**

Trefnwyd nifer o weithgareddau cymdeithasol ar hyd y flwyddyn gan Swyddogion y Cynllun. Bwriad y rhain oedd hybu´r Gymraeg a´i defnydd mewn sefyllfaoedd tu allan i´r dosbarth ddysgu. Cafwyd enghreifftiau gwahanol ar hyd y flwyddyn o´r gweithgareddau yma. Cynhaliwyd nosweithiau gyri, sesiynau ymarfer corff, noson goginio, noson cwrdd a thrafod gydag ymwelwyr o Gymru a hefyd noson rhannu profiadau, ond i enwi rhai. Cafwyd ystod o niferoedd yn mynychu´r nosweithiau yma - yn sicr pan oedd nodwedd yn ymwneud â bwyd, roedd niferoedd yn dueddol o fod yn uwch. Roeddynt yn nosweithiau hwylus dros ben, a Chymraeg oedd yr iaith ymhlith y grŵp. Gwelais yn gynnar yn y flwyddyn pa mor bwysig oedd cysylltu a chreu cysylltiadau gydag aelodau o´r Gymdeithas Gymraeg er mwyn gallu gwahodd pawb oedd yn mentro neu yn rhan o´r Gymraeg





Mawrth 12 = Te Croeso yn yr Hen Gapel Bethel

Mawrth 17 = Bwyd Croeso yn Ysgol yr Hendre, Trelew

Mawrth 21 = Bwyd croesawu Fflur, Lleucu ag Annest / Dathlu pen-blwydd Mirain / Pwyllgor dosbarthiadau = Gwalia Lân

Mawrth 31 = Clwb yr Urdd yn Nhrelew

Mawrth 31 = Cyfarfod Cyntaf Gwawr Gaiman - Empanadas yn Nhŷ Camwy

Ebrill 2 = Cwrdd Diolchgarwch Capel Bethel

Ebrill 6 = Noson Lawen gyda Tecwyn a Rhiannon Ifan

Ebrill 8 = Sioe Amaethyddol - Gwneud Te gyda´r Côr a helpu Ysgol Gymraeg y Gaiman

Ebrill 9 = Oedfa Cymraeg Capel Bethel gyda phregeth gan Tecwyn Ifan

Ebrill 21 = Noson Cyri - Cyfarfod cyntaf Clwb Merched Trelew (Croeso i bawb)

Mai 14 = Oedfa Cymraeg Capel Bethel

Mai 19 = Noson Ymarfer Corff Gwawr y Gaiman

Mehefin 2 = Dysgu ym Mhorth Madryn a thwmpath dawns

Mehefin 3 = Eisteddfod Wirion cynhaliwyd gan Mirain Dafydd

Mehefin 8 -11 = Ffair lyfrau gyda stondin yn dathlu 20 mlynedd Prosiect yr Iaith Gymraeg

Mehefin 9 = Arholiad Mynediad CBAC yng Ngholeg Camwy (Anne Jones yn arholi)

Mehefin 13 = Cyflwyniad gan Esyllt ag Eirian yn y Gaiman (myfyrwyr Santander)

Mehefin 18 = Oedfa Cymraeg Capel Bethel

Mehefin 20 = Sosial yn Nhrelew - croesawu Myfyrwyr Santander a Myfyrwyr Met Caerdydd

Mehefin  23 = Noson o adloniant yn yr Ysgol Gerdd gyda myfyrwyr Santander

Gorffennaf 1 = Eisteddfod Mini Bethel (Jenny Jones yn beirniadu a´r ddau swyddog yn paratoi tuag at y cystadlaethau llenyddol a'r adrodd.)

Gorffennaf 2 = Te Cymraeg Eisteddfod Chubut yn Neuadd Dewi Sant, Trelew

Gorffennaf 28 = Defod Gŵyl y Glaniad yn NLe Mercante yn Nolavon

Gorffennaf 29 = Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant yng Nghapel Bethel

Awst 5 = Eisteddfod Mimosa, Porth Madryn

Awst 10 = Prosiect 'Ble dw i'n byw' gyda Ysgol Gymraeg y Gaiman

Awst 11 = Te Ysgol Gymraeg y Gaiman i ddathlu Gŵyl y Glaniad a Diwrnod y Gaiman

Awst 12 = Te a Chyngerdd Côr

Awst 13 = Oedfa ym Methel a the croesawu Huw Davies, Bronwen Morgan a Rob Mansel o Gymru

Awst 21 = Gorymdaith Diwrnod y Gaiman

Awst 25 = Noson Gwawr y Gaiman yn Nhŷ Camwy - sgwrsio a chroesawu dwy nyrs o Gymru sydd yn gweithio yn yr ysbyty Trelew

Awst 31 = Noson groesawu Santander a Nyrsys yn Nhrelew

Medi 1 = Dysgu ym Mhorth Madryn (JJ - AJ wedi tynnu dant)

Medi 2 = Sosial croesawu Santander ac athrawes newydd y Gaiman yn y Mochyn Du, Gaiman

Medi 5, 6, 7 = Rhagbrofion Eisteddfod yr Ifanc (swyddogion yn paratoi a AJ yn beirniadu cystadlaethau´r ddawns werin)

Medi 7 = Sosial croesawu myfyrwyr Santander yn Nhrelew

Medi 8 a 9 = Eisteddfod yr Ifanc

Medi 20 = AJ yn dysgu ym Madryn

Medi 30 = Noson Gwawr y Gaiman - Esyllt yn sôn am ei hamser yng Nghymru

Hydref 15 = Dathlu diwrnod 'Shw mae Su´mae' gyda chlybiau Cymraeg

Hydref 20 - AJ a JJ yn dysgu ym Madryn

Hydref  23 = Wythnos ymweliad yr Urdd

Hydref  24  -  Cwrdd â disgyblion Coleg Camwy a chyngerdd yn Nolavon

Hydref 25 - Ymweliad â Phunto Tombo a Phorth Madryn (cwrdd â Chymdeithas Cymraeg Madryn)

Hydref 26 - Y tri swyddog Menter wedi eu derbyn i Orsedd y Wladfa

Hydref 27/28 - AJ a JJ yn cystadlu yn Eisteddfod y Wladfa

Tachwedd  10 - Noson Gwawr y Gaiman - Gwerin fit yng ngofal Siân Thomas

Tachwedd 25 - AJ a JJ yn canu yn nathliad 100 mlynedd Eglwys Dewi Sant, Maesteg

Tachwedd 29 - Noson Lawen Dosbarthiadau Cymraeg y Gaiman

Rhagfyr 3 - Oedfa Nadolig Dosbarthiadau Cymraeg ym Methel

Rhagfyr 5 - Noson Dathlu Dosbarthiadau Cymraeg Trelew



**Gweithgareddau Menter Patagonia yn yr Andes**



**Digwyddiadau Menter Patagonia, Yr Andes, 2016 – Nia Jones, Swyddog Datblygu'r Andes**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| MAWRTH | 31.03.17 | TREVELIN | NOSON LAWEN yng nghwmni Tecwyn Ifan | 30 o bobl | |
| EBRILL | 01.04.17 | ESQUEL | Cyngerdd Tecwyn Ifan, wedyn swper yn y ganolfan | 40 o bobl | |
| | 21.04.17 | ESQUEL | Sgwrs Hannah Sams am ddramâu yng Nghymru | 10 person | |
| MAI | 05.05.17 | TREVELIN | NOSON Pizza i ddathlu llwyddiant Eisteddfod Trevelin | 10 person | |
| MEHEFIN | 03.06.17 | ESQUEL | CWIS a noson o ganu yn y ganolfan | 25 person | |
| GORFFENNAF | 29.07,17 | TREVELN | Eisteddfod ddwl yn Swper Gŵyl y Glaniad | 100 person | |
| AWST | 25.08.17 | TREVELIN | Cyri a Charaoci yng ngwmni gwirfoddolwyr Ysgoloriaeth Santander, Prifysgol Caerdydd. | 20 person | |
| AWST | 27.08.17 | ESQUEL | Noson gymdeithasol yng nghwmni gwirfoddolwyr Ysgoloriaeth Santander, Prifysgol Caerdydd. Swper a gemau. | 15 person | |
| MEDI | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| HYDREF | 30.10.17 | TREVELIN | Cyngerdd, Swper a noson caraoci yng nghwmni criw´r Urdd. | 40 person | |
| HYDREF | 31.10.17 | ESQUEL | Te Cymreig a chyngerdd yng nghwmni criw´r Urddd. | 40 person | |
| RHAGFYR | 01.12.17 | TREVELIN | Swper dathlu 20 mlynedd y cynllun ddysgu Cymraeg. | 80 person | |



**Noson gyda'r canwr gwerin Tecwyn Ifanc yn yr Andes**

**DIGWYDDIADAU ERAILL YR ANDES**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MAWRTH | 01.03.17 | TE CYMREIG Cymdeithas Gymraeg Trevelin i groesawu ymwelwyr o Gymru | 30 o bobl | |
| | 03.03.17 | CYNGERDD a swper Cymdeithas Gymraeg Esquel. PLU yn y capel. | 60 o bobl | |
| | 4 & 5.03.17 | Stondin Ysgol Gymraeg yr Andes ac Ysgol y Cwm yng ngŵyl PATAGONIA CELTICA.<br>Rhoi dosbarthiadau Cymraeg. | 100 o bobl (sgwrsio yn unig) | |
| | 28 & 29.04.17 | Eisteddfod Trevelin. Canu gyda Chôr Trevelin, Parti llefaru, hyfforddi plant i adrodd. | 150 o bobl | |
| | 30.04.17 | Cinio yn Ysgol y Cwm | 80 o bobl | |
| | | Defod Pleidlais Ysgol 18 | 100 o bobl | |
| | | Cyngerdd Trevelin | 100 o bobl | |
| | 06.05.17 | Te Cymreig Cymdeithas Gymraeg Esquel | 60 o bobl | |
| | 20.05.17 | Sgwrs Cymdeithas Gymraeg Esquel (Isaias Grandis yn trafod hanes y Celtiaid) wedyn noson gymdeithasol. | 10 person | |
| | 21.05.17 | Te Cymreig yn Ysgol y Cwm i godi arian | 70 o bobl | |
| | 25.06.17 | Matebingo yn Ysgol Y Cwm i godi arian | 80 o bobl | |
| | 15.07.17 | Swper yn y ganolfan yn Esquel i ffarwelio â Noe Jenkins cyn iddi fynd i astudio yng Nghymru. | 15 o bobl | |
| | 27.07.17 | Defod Gŵyl y Glaniad yn Ysgol Y Cwm | 50 o bobl | |
| | 28.07.17 | Defod Gŵyl Y Glaniad, Trevelin.<br><br>Te Cymreig yn Ysgol Y Cwm<br>Cyngerdd Gŵyl Y Glaniad, Trevelin | 200 o bobl<br>70 o bobl<br>100 o bobl | |
| | | Eisteddfod Ysgol Puerta del Sol. Hyfforddi plant Ysgol Y Cwm, Ysgol Gymraeg yr Andes ac Ysgol 24, Esquel. | 100 o bobl | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 29.07.17 | Defod Gŵyl y Glanaid, Esquel. Cario´r faner. | | |
| | 07.10.17 | Swper yn y ganolfan yn Esquel i groesawu Noe Jenkins nol o Gymru. | 15 o bobl | |
| | 22.11.17 | Swper yng nghwmni Cymdeithas Gymraeg Esquel ac ymwelwyr o Gymru. Noson o Ganu. | 30 o bobl | |
| | 25.11.17 | Defod penblwydd Trevelin. Cario´r faner.<br>Cyngerdd pen blwydd Trevelin – ysgrifennu cân actol ar gyfer Côr Trevelin | 1000 o bobl<br>120 o bobl | |
| | 31.11.17 | Defod diwedd y flwyddyn yn Esquel. | 30 o bobl | |
| | 23.12.17 | Cyngerdd carolau Plygain yn Nhrevelin. Criw bach o Ysgol Gymraeg Yr Andes yn dod at ein gilydd i ganu. | | |




**Nia Jones, Swyddog Datblygu'r Cynllun yn yr Andes**

# PIGION O ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU 2017

**1 Jenny Jones, Dyffryn Camwy**

Dosbarth Blwyddyn 1 Ysgol Gymraeg y Gaiman

Mae disgyblion y dosbarth yma wedi datblygu hyder a sgiliau eu Cymraeg heb amheuaeth. Maent yn ceisio o hyd i gyfathrebu yn y Gymraeg, ac yn dyfalbarhau bob dydd i wella, gan ofyn yn rheolaidd ´Beth ydy….yn Gymraeg?´

Parhawyd gyda chynllun thematig y flwyddyn, a chafwyd gwersi ar draddodiadau Cymreig, y byd gwaith, gemau traddodiadol ac anifeiliaid. Parhawyd i ddefnyddio caneuon yn y gwersi, ac yn aml gellir clywed y plant yn eu canu wrth wneud eu gwaith yn dawel fach! Cafwyd cysondeb ar ddechrau pob gwers gyda´r drefn o gyfarch, trafod y calendr a´r tywydd. Mae hyn wedi golygu fod y plant erbyn mis Awst wedi gallu meistroli´r cwestiynau pwysig (Sut mae´r tywydd heddiw? Pa ddydd ydy hi? Pa fis ydy hi?)  ac yn arwain rhan yma´r wers bron yn gwbl annibynnol (a naturiol) yn y Gymraeg, heb unrhyw gymorth o´r athrawes.



Dilynwyd cynllun Tric a Chlic hyd at ddiwedd y flwyddyn, ac er ni chyrhaeddom ddiwedd Cam 1, teimlaf yn ffyddiog fod sylfeini caadarn wedi eu gosod a gellir adeiladu ymhellach ar y sgiliau yma'r flwyddyn nesaf. Dau aelod yn unig o´r dosbarth sydd bellach yn cael trafferth gyda chlymu a datglymu geiriau. Mae 6 ohonynt yn darllen llyfrau syml sy´n dilyn patrymau iaith, ac mae´r un aelod arall yn darllen geiriau a gyflwynir yn y rhaglen Tric a Chlic. Defnyddiwyd hefyd rhaglen ddarllen Sam a Non yn y dosbarth. Cafwyd ymateb cadarn i´r llyfrau a gwelwyd llwyddiant yn lefel ddarllen y plant oherwydd y cymeriadau hoffus, patrymau iaith gref, a theganau meddal oedd ynghlwm â´r llyfrau.









Ymatebodd y plant yn wych i system wobrwyo´r dosbarth - cyflwyno sêr ar siart pan wnaethant ymdrech i siarad Cymraeg, gorffen eu gwaith o fewn da amser, bod yn ffrind da ayb. Deallant sut oedd y system yn gweithredu, ac roedd hyd yn oed aelodau gwana´r dosbarth yn deall y Gymraeg a oedd yn gysylltiedig â´r siart - colli, ennill, seren.

**<u>Ysgol yr Hendre, Trelew</u>**

Cafwyd hoe fechan yn y ddarpariaeth o wersi llenyddiaeth yn fuan ar ôl dychwelyd o wyliau´r Gaeaf. Oherwydd sefyllfa staffio yn yr ysgol, gofynnwyd i mi ddysgu gwersi´r côr hyd at eisteddfod yr ifanc. Gwnaethom ganolbwyntio ar ynganu clir a geirio pendant yn y sesiynau.

Wedi´r eisteddfod, dychwelais i ddysgu chwedlau i ddosbarthiadau´r ysgol. Dechreuom gyda Branwen ac yna Culhwch ac Olwen, ac fe adeiladodd hyn ar eu gwaith Cantre´r Gwaelod o hanner cyntaf´r flwyddyn. Defnyddiwyd lluniau er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac i´w wneud yn fwy apelgar. Gwnaethom nifer o weithgareddau yn seiliedig ar y chwedlau: mynegi barn, trafod geirfa bwysig, ail-greu un rhan o´r stori, gorffen brawddegau, a defnyddio patrymau iaith (ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol). Unwaith eto defnyddiwyd dulliau Pie Corbett i hwyluso´r dysgu ac i gofio´r patrymau iaith yn y stori. Roedd hyn yn llwyddiannus dros ben, gyda´r plant yn cofio nid yn unig trefn y stori ond geirfa ac ymadroddion ohonynt hefyd.











**2 Nia Jones, Yr Andes**

**Arddegwyr Trevelin.**

Mae criw arddegwyr Trevelin yn cael cyfle i fynychu amryw o ddosbarthiadau bob wythnos. Mae tri yn dod i fy nosbarth bob prynhawn Sadwrn. Mae´r tri yn anhygoel (ond nid achos fy nosbarthiadau i!) Rydym yn treulio llawer o amser yn paratoi ar gyfer cystadlaethau ysgrifenedig e.e. eisteddfodau, ac eleni, ymgeisiodd y tri am ysgoloriaeth Coleg Llanymddyfri ac un o fy uchafbwyntiau i yn bersonol eleni oedd clywed eu cyfweliadau Skype. Profiad gwefreiddiol i fi, a chafodd pob un ohonyn nhw wefr hefyd wrth sylweddoli eu bod nhw wedi siarad ag oedolion ym mhen draw´r byd, a'u bod nhw wedi deall y cwestiynau, wedi ateb yn estynedig, bod y sawl oedd yn gwrando wedi deall a hyd yn oed wedi chwerthin ar eu jôcs nhw.

**Ysgol 24, Esquel**

Paratoi adrodd a chydadrodd ar gyfer eisteddfod ysgol Puerta del Sol Trevelin. Ysgol hyfryd sydd wir yn gwerthfawrogi bod athrawon ac ymwelwyr o Gymru yn mynd yno. Un o uchafbwyntiau´r flwyddyn oedd llwyddiant i nifer ohonynt yn y cystadlaethau llefaru yn Eisteddfod Ysgolion Puerta del Sol. Roedd sawl adroddiad yn y papurau newydd lleol amdanyn nhw. Uchafbwynt arall oedd criw'r Urdd yn ymweld. Daeth tua 50 o blant i´r gweithdy dawnsio gwerin ac wedyn canodd y criw i´r ysgol gyfan. Mae plant a rhieni´r ysgol wedi cefnogi sawl gweithgaredd yn y Ganolfan yn Esquel eleni. Mae llawer o botensial yma i´r sawl sy´n symud ymlaen i´r ysgol uwchradd i ddechrau gwersi Cymraeg go iawn yn Esquel.

**Blwyddyn 1 Ysgol y Cwm.**

Gwella sgiliau llafar, llythrennedd a rhifedd. Roeddwn i´n poeni ar ddechrau´r flwyddyn bod y plant wedi colli ´r arferion sylfaenol fel defnyddio rhifau a lliwiau a gofyn am bethau syml yn Gymraeg. Er hynny, mae cynnydd gwych wedi digwydd yma eleni. Mae dealltwriaeth arbennig ganddynt o gyfarwyddiadau a sgwrsio cyffredinol. Mae'r rhieni´n sôn bod eu sgiliau rhifedd yn gryfach yn y Gymraeg na´r Sbaeneg. Mae eu sgiliau gwrando a deall yn wych - maen nhw wedi bod yn gwylio 10 munud o gyfres 'Fflic a Fflac' bob dydd ac yn deall popeth. Mae cynllun gwobrwyo siarad Cymraeg ar waith, pawb yn ymateb yn dda. Bydd angen cynyddu´r sgwrsio yn y flwyddyn newydd. Mae angen iddyn nhw siarad mwy. Buodd yr athrawes arall (Sbaeneg) y dosbarth yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg, ac erbyn diwedd y flwyddyn, roedd hi´n hyderus iawn ac yn aml byswn i´n ei chlywed hi´n defnyddio geirfa Cymraeg gyda´r plant.

**Plant 4 & 5 oed Ysgol y Cwm**

Gwella sgiliau llafar, llythrennedd a rhifedd drwy chwarae. Mae'r rhain yn griw da. Maen nhw'n deall llawer, ac mae ambell un yn gwneud ymdrech ardderchog i ddefnyddio´r Gymraeg yn y dosbarth. Mae athrawes arall y dosbarth - er nad ydy hi´n siarad llawer o Gymraeg - yn gwneud ymdrech arbennig i ddefnyddio termau Cymraeg yn y dosbarth felly mae´r plant yn aml yn defnyddio´r Gymraeg wrth drafod pethau sylfaenol fel lliwiau a rhifau ayyb.

**Ysgol Gymraeg yr Andes, plant 11-13 oed**

Sgiliau siarad. Holi ac ateb cwestiynau. Criw gwych sy´n cael llawer o hwyl. Dysgu´n gyflym iawn ac yn cofio llawer. Hoff iawn o ganu pop Cymraeg.



**Ysgol y Cwm**

**3 Anne Jones, Dyffryn Camwy**

**Sesiwn Siarad Nosweithiau Mawrth**



Bu´r pump a fynychodd yn ffyddlon iawn drwy gydol y flwyddyn. Roedd y sgyrsiau bob wythnos yn amrywio o ran testunau ond roedd y wers yn anffurfiol iawn a byddai testun y siarad yn dibynnu ar sut roeddwn i´n dechrau. Wrth gwrs, mi oedd elfennau o ddysgu yn parhau wrth esbonio geirfa neu strwythurau brawddegau ond mae gan y pump ohonynt rugldер arbennig ac yn gallu cynnal sgwrs ardderchog yn y Gymraeg. Maen nhw´n griw arbennig ac yn cyd-weithio ac yn ymateb yn dda i´w gilydd.

**Coleg Camwy – Bob dydd**

Ysgol Uwchradd ydy Coleg Camwy ac mae´r disgyblion yn cael gwersi Cymraeg gorfodol ar draws beth a elwir yng Nghymru yn gyfnod allweddol 3. Mae blynyddoedd 1, 2 a 3 (Blwyddyn 7, 8 a 9 Cymru) yn cael dwy wers o 40 munud bob wythnos yn y boreau, ac mae blynyddoedd 4, 5 a 6 yn cael eu gwersi dwy awr un prynhawn yr wythnos. Mae´r disgyblion yn dewis ym mlwyddyn 4 os ydynt am barhau gyda´r Gymraeg hyd a Blwyddyn 6 ond mae´r niferoedd o hyd yn dda.

Mae gallu´r disgyblion yn amrywio, yn ôl faint o Gymraeg maent wedi ei gael yn yr ysgolion cynradd, ac os ydyn nhw wedi clywed Cymraeg ar yr aelwyd adref. Mae´r disgyblion erbyn hyn yn ceisio cyfathrebu yn y Gymraeg a rhaid eu hannog i´w wneud er efallai nad ydynt yn gywir bob tro ond rhaid eu canmol ac mae'n galonogol eu gweld yn rhoi cynnig arni.  Gabriel Restucha sydd yn dysgu rhan fwyaf o´r gwersi ond mae Caren Jones hefyd yn dysgu dosbarthiadau blwyddyn 1. Mae Esyllt Nest Roberts hefyd yn dysgu yn yr ysgol ac mae hi yn cymryd dosbarthiadau ymestynnol ym Mlwyddyn 1, 2 a 3.

**Blwyddyn 6 - Dydd Llun 13:30 - 15:30**

14 o ferched oedd yn y dosbarth ac mae yna amrywiaeth o allu rhyngddynt. Mewn gwirionedd fe rannwyd y flwyddyn yn ddau grŵp. Yn hanner gyntaf y flwyddyn roedd un grŵp o 6 o ferched yn canolbwyntio ar adolygu ar gyfer yr arholiad Mynediad tra roedd y grŵp arall yn parhau i ddilyn cwrs gyda Gabriel Restucha.

Roedd y 6 yn dda iawn ond yn anffodus fe gawsom drafferthion dŵr ofnadwy ac fe gaewyd y Coleg am fis ac felly fe gollon nhw 4 wers ac felly dim ond dwy ohonynt wnaeth sefyll yr arholiad sef Gwenda Williams a Shannon Brunt ac fe lwyddodd y ddwy i basio. Yna, ar ôl yr arholiad fe gymerais i hanner arall y grŵp a gweithio drwy´r cwrs gan ganolbwyntio ar yr elfen lafar drwy ddefnyddio cardiau fflach a gemau iaith, ac felly dyna oedd canolbwynt y gwersi oedd codi hyder wrth siarad. Roedd gan y grŵp dealltwriaeth dda ac ar y cyfan roeddwn i´n teimlo bod y sesiynau yma wedi bod o fudd o ran yr ochr sgwrsio.

**Blwyddyn 2 Ymestynnol - Dydd Mawrth 11:05 - 11:45 a Dydd Iau 12:30 - 13:10**

Roedd yna bump o ddisgyblion yn y wers yma sef Heledd, Maite, Valentina, Marco ac Iestyn. Mae'r rhain yn griw ardderchog ac yn barod iawn i dreialu unrhyw beth rydych chi´n rhoi iddyn nhw. Eto, dilyn amryw o themâu oeddwn i´n ei wneud a hynny yn deillio o destunau Eisteddfod oedd yn codi. Roedden nhw'n barod iawn i gyd-adrodd yn Eisteddfod Bethel a hefyd (ynghyd ag eraill o´r flwyddyn fe wnaethant gyd-adrodd yn seremoni agoriadol Eisteddfod yr Ifanc).

## Dosbarthiadau Oedolion Trelew

Mae dosbarthiadau Trelew yn cael eu haddysgu yn Ysgol yr Hendre, Moreno. Mae ambell i ddosbarth yn cael ei rannu gydag Ana Chiabrando Rees.

## Canolradd : Nos Fercher 18:00 - 21:00 (Ysgol yr Hendre, Moreno):

Dechreuwyd gyda 5 yn y dosbarth ac erbyn canol Mai roedd wedi cynyddu i naw. Ar y cyfan, roedd eu dealltwriaeth nhw o´r iaith yn dda iawn ond yn bendant diffyg hyder sydd yma wrth gyfathrebu. Yn y gwersi, roeddwn i´n defnyddio gemau iaith i ymarfer a hefyd rhoi pynciau sgwrsio.  Gan welais yn gynnar yn y flwyddyn bod angen mwy o ymarfer sgwrsio arnyn nhw, fe benderfynon ni ychwanegu awr i Nos Fercher a oedd yn gyfan gwbl ar gyfer sgwrsio yn unig. Mi faswn i´n mynd â chardiau fflach er mwyn ysgogi sgwrsio neu weithiau roedden ni´n sgwrsio yn naturiol am ddigwyddiadau cyfoes. Mae ganddynt oll eirfa dda, ond rhaid parhau i ymarfer gyda defnyddio´r iaith yn naturiol. Mi faswn yn argymell i barhau gyda´r awr sgwrsio ac yna ddwy awr o wersi er mwyn ymarfer ymhellach.



**Taith yr Urdd 2017**

**Adroddiad Anne Jones, y Gaiman**

Fe laniodd bump ar hugain o bobl ifanc o Gymru a thri aelod o staff a oedd yn cynrychioli Urdd Gobaith Cymry eleni ym Maes Awyr Trelew ar y drydedd ar hugain o Hydref.

Roedd ganddynt wythnos hynod o brysur o´r blaenau ac roeddent i gyd yn awyddus i gwrdd â phlant a thrigolion y Dyffryn. Ar ôl cyrraedd ar y prynhawn dydd Llun aethom yn syth i´w llety ar Fferm Maes Rhyddid yn y Gaiman lle cawsom ein croesawu gan asado traddodiadol yr Ariannin. Gwely cynnar oedd hi'r noson honno er mwyn bod yn barod am ddiwrnod llawn ddydd Mawrth lle roeddent yn cwrdd â phobl ifanc Coleg Camwy a chael cinio gyda´r chweched yn yr ysgol.

Fe gawson nhw brofiad arbennig yn dawnsio ac yn ymarfer y Gymraeg gyda disgyblion y Coleg. Yna aethant ar daith o gwmpas y Gaiman gyda rhai o ddisgyblion y drydedd, y bumed a´r chweched flwyddyn yn eu tywys nhw o gwmpas gan roi hanes adeiladau'r Gaiman iddynt. Y noswaith honno, fe ddiddanwyd trigolion Dolavon yn y Ganolfan Fasnachol gydag amryw o eitemau cerddorol a llafar.



**Gyda myfyrwyr Coleg Camwy**



**Perfformio yng nghyngerdd Dolavon**

Ddydd Mercher, cawsant seibiant wrth i bawb deithio i Bunto Tombo i ymweld â´r pengwiniaid gyda phlant blwyddyn 4 Ysgol yr Hendre. Yna, cawsant gyfle i deithio i Borth Madryn i ymweld ag Amgueddfa’r Cymry a chawsom ganu arbennig ar lan bedd Cathrin Davies, er cof amdani.

Yna, cyfle i lenwi boliau oedd nesa wrth i Gymdeithas Gymraeg Madryn ein croesawu yn Nhŷ Toschke. Ac eto, fe ymunwyd yn y dawnsio a´r canu.






Bore dydd Iau, cafodd y criw'r fraint o ymweld â Seremoni Gorsedd y Beirdd yn y Gaiman cyn teithio i Drelew a chael cyfle i ymweld â´r ddinas a gwneud ychydig o siopa anrhegion.



**Ymweld â Sermoni´r Orsedd**

Ddydd Gwener, fe rannwyd y grŵp ac fe aethant i ymweld ag Ysgol Gymraeg y Gaiman, Ysgol yr Hendre Moreno ac Ysgol yr Hendre Rivadavia. Yma, cawsant gyfle i gymryd rhan yn y gwersi, siarad a chyfathrebu a chwarae â´r plant wrth gwrs.

Wrth ail gwrdd a chael cinio yn y Touring yn Nhrelew, roedd pawb yn barod am noson agoriadol Eisteddfod y Wladfa yn Neuadd Dewi Sant. Braf oedd gweld cymaint o gystadlu wrth y criw boed yn ganu neu´n adrodd.




Roedd bore dydd Sadwrn yn hynod o brysur yn pacio ac yn ffarwelio â´r Gaiman cyn teithio i Drelew ar gyfer yr ail ddiwrnod yr Eisteddfod. Roeddent wedi paratoi ar gyfer cystadleuaeth y côr ac eto, gwelwyd ambell ddeuawd a chanu unigol. Cyn i´r cystadlu orffen ar y nos Sadwrn yn anffodus bu rhaid ffarwelio â´r criw er mwyn iddynt ddal bws dros nos i´r Andes er mwyn gwneud y mwyaf o´r ychydig amser oedd ganddynt ar ôl o'u hymweliad. Roedd hi´n wythnos brysur ond fythgofiadwy i´r criw ifanc dw i´n siŵr a phleser mawr oedd eu cael nhw yma yn y Dyffryn.





## PAPURAU BRO’R WLADFA

**Llais yr Andes**




Dyma Bapur Bro sydd cael ei gynhyrchu’n rheolaidd fel rhan o waith MENTER PATAGONIA yn ardal yr Andes ers rhai blynyddoedd. Mae’n cael ei gynhyrchu mewn lliw, o safon uchel.

Nia Jones, Swyddog Datblygu’r Andes sydd wedi bod yn gyfrifol am gasglu’r deunydd, ei ddylunio a’i olygu.

Mae’n cael ei ddarllen yn eang yn y Wladfa, fel yng Nghymru. Mae’n ffordd effeithiol iawn o ledaenu newyddion a straeon am yr Andes ymhlith y cymdogion ynghyd â charedigion a chyfeillion Patagonia ar draws y byd.

Mae Llais yr Andes hefyd yn cyhoeddi fideos ar **Youtube Llais Yr Andes** ac ar Twitter **@LlaisyrAndes**

# Pwy 'Dych Chi?

## Dysgwyr Esquel




Helo! Sut dych chi? Monica dw i. Dwi'n byw yn Esquel ond yn wreiddiol dwi'n dod o Gonzales Chaves, Buenos Aires. Dwi'n hanner cant oed. Dwi'n gweithio yng nghanolfan Pen blwydd Felix Eventos. Mae pedair merch gyda fi; mae Aimara yn ugain, mae Rosana yn un deg wyth, mae Lis yn ddeuddeg ac mae Ana Paula yn saith oed. Dwi'n hoffi bwyta teisen , bisgedi, ac asado. Dwi'n hoffi beicio. Dwi'n hoffi dysgu Cymraeg achos mae'n ddiddorol. Mae Ana Paula yn dysgu Cymraeg hefyd gyda Marina. Hoffwn i siarad Cymraeg yn well. Hoffwn i ddawnsio gwerin – ron i'n dawnsio gwerin gyda Iwan Madog. Hoffwn i ennill y loteri i brynu tŷ a mynd ar wyliau.



Helo, Maxi dwi, dwi'n un deg pump oed. Dwi'n dod o Esquel a dwi'n byw yn Esaquel. Dwi'n hoffi dawnsio, cysgu a chwaraeon. Dwi ddim yn hoffi bwyta banana, dwi ddim yn hoffi lliw melyn. Dwi'n hoffi chwarae pêl-law a beicio.Dwi'n hoffi astudio Cymraeg; dyma fy negfed blwyddyn. Fy hoff le ydy'r mynyddoedd.

Helo! Jere dw i. Dwi'n 12 oed. Dwi'n hoffi dawnsio, dwi'n hoffi pob math o fiwsig. Eleni dwi'n gwneud WLPAN gyda Monica, Maxi, Nadia a Nora. Dwi'n hoffi chwarae pêl-law, pêl-fasged a rygbi. Fy hoff fwyd ydy byrgyrs. Ta ta!





Helo! Nadia dw i, dwi'n byw yn Esquel. Dwi'n 20 oed. Dwi'n hoffi darllen, nofio a canu. Dwi'n hoffi coluro yn fawr iawn a peintio gewinedd. Dwi'n astudio colur yn brofesiynnol. Heddiw, fy hoff liw ydy coch. Dwi'n hoffi cyfarfod gyda ffrindiau. Dwi'n caru cathod. Dwi'n bwyta pastas a hufen iâ. Dwi ddim yn hoffi coginio. Hoffwn i fynd i Gymru. Fy hoff bobl enwog ydy Abel Pintos, Lana Del Rey a Mon Laferte. Fy hoff ffilm ydy "Orgullo y Prejuicio – dwi'n cary Sr. Darcy. Fy hoff lyfr ydy Eleanor a Park achos ces i'r llyfr yn anrhed gyda fy nhad.

Nora dwi. Dwi'n dod o Fuenos Aires yn wreiddiol. Therapydd llais dw i. Dwi'n gweithio yn yr ysgol ac mewn clinic. Dwi'n hoffi helpu pobl i siarad mwy. Allen ydy enw fy ngwr i ac mae pedwar o blant gyda ni. Douglas ydy enw'r plentyn hynaf, mae o'n byw yn Oxfordshire; mae John yn byw yma, mae e'n dysgu bod yn athro ffiseg; mae Paul yn warden coed ac mae Mike yn dysgu'r ffidil yn Roca. Fy hoff hobi ydy chwarae ping pong. Hoffwn i siarad Cymraeg yn well. Hoffwn i fynd i Gymru i fyw mewn teulu Cymraeg am un mis i siarad Cymraeg trwy'r dydd.



Pleser o’r mwyaf oedd gweld ailymddangosiad Papur Bro Dyffryn Camwy, **CLECS CAMWY** yn ystod 2017. Gwelwyd cyfraniadau gan nifer fawr o bobl yn y gymuned o dan olygyddiaeth un o Swyddogion Datblygu’r ardal, Jenny Jones

# Clecs Camwy

**Papur Bro Dyffryn Camwy** **Hydref 2017**

## Croeso i griw yr Urdd 2017!

Daniel Rees Owain Ash Elen Evans Mared Davies Gwenno Hughes

Joanna Zajac
Celyn Williams
Elen Iorwerth
Alwen Morris
Rebeca Ellis
Manon Williams
Ethan Williams
Twm Ebbsworth
Lois Ellis



Gruffydd Williams
Ifan Roberts
**Osian Evans**
Gwion Lloyd
Dafydd Orritt
Robat Lloyd
Lloyd Davies
Daniel Rowbotham
Hannah Wright

Marged Williams Lois Green Cadi Edwards Mared Edwards Elen Roach

# Coleg Camwy 2017

Mae yna lwyth o ddigwyddiadau wedi bod yn digwydd yn y Coleg eleni a gormod i ni allu sôn amdanynt mewn un tudalen, felly canolbwyntio ar ychydig o ddigwyddiadau sydd wedi bod yn digwydd gyda´r dosbarthiadau Cymraeg ydy´r nôd!

Ar gyfer y Ffair Lyfrau, paratodd dosbarth y Chweched sgetsh ´Y Tri Mochyn Bach´. Nhw oedd wedi ei hysgrifennu, creu´r pypedau a pheintio´r theatr oedd yn mynd o gwmpas gyda nhw. I ddechrau, dim ond yn ystod y Ffair Lyfrau roeddent am berfformio, ond gyda llwyddiant ysgubol y sgetsh maent wedi ymweld ag Ysgolion Meithrin a Chynradd yr ardal gan hefyd gynnal gweithgareddau i gyd-fynd â´r stori. Fe wnaethant hefyd berfformio yn Ysgol y Cwm, Trevelin yn ystod eu hymweliad yno yn ddiweddar! Da iawn chi ferched!

Ar ddechrau Awst, ac o dan drefniant Gabriel Restucha cynhaliwyd Eisteddfod Fach Camwy yn y Gampfa yn Gaiman. Rhannwyd holl ddisgyblion y Coleg i bum tŷ a bu´r disgyblion am wythnosau yn paratoi at nifer o gystadlaethau o ddawnsio gwerin a dawnsio traddodiadol yr Ariannin, i ganu, adrodd, deuawdau doniol a chorau garglio. Braf oedd gweld cynifer o ddisgyblion yn cymryd rhan ac yn mwynhau cystadlu a bod ar lwyfan. Llongyfarchiadau mawr i Gabriel a staff y Coleg am ei llwyddiant ysgubol.









Yn sgil llwyddiant yr Eisteddfod Fach, braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Ifanc. Gwelwyd grŵp llefaru Cymraeg yn cymryd rhan yn y Seremoni Agoriadol, yn ogystal â chystadlu yn y Parti Adrodd o dan arweiniad Anne Jones ag Esyllt Nest Roberts. Llongyfarchiadau mawr i Graciela Colasante am baratoi'r dawnswyr gwerin ac am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod. Da iawn bawb!

Edrychwn ymlaen nesa at groesawu Criw'r Urdd i´n plith a dydd Mawrth fe fydd cinio yn yr ysgol a chriw bach o´r Chweched a´r Bumed flwyddyn yn eu tywys nhw o gwmpas y Gaiman gan sôn am hanes y dref.

Pob dymuniad da i bawb yn Eisteddfod y Wladfa a phob dymuniad da i´r Coleg wrth ddod i ben â´r flwyddyn academaidd.

## Pigion o adroddiad Cydlynydd 2017

**Swyddogion o Gymru**

Mae cael athrawes iaith brofiadol fel Nia (Jones) yn Ysgol y Cwm Trevelin, yr Andes wedi bod yn fuddiol iawn i gymuned yr ysgol a buddiol iawn oedd bod tiwtoriaid lleol wedi bod ar gael i gefnogi Nia a'u bod wedi gallu eu harsylwi hi'n dysgu hefyd.

Roedd Anne (Jones) wedi cyrraedd y Dyffryn i fod yn gyfrifol am oedolion ac arddegau yn bennaf ac oherwydd nad oedd yn bosib i Jenny (Jones) ail swyddog y Dyffryn, gyrraedd tan fis yn hwyrach, roedd Anne wedi ymgymryd â llawer o elfennau o'r gwaith yn ychwanegol i'w phrif rôl.

Yr her fwyaf i swyddogion y Dyffryn oedd y ffaith bod llifogydd ofnadwy wedi achosi problemau yn y ddarpariaeth dŵr ar ddechrau'r flwyddyn gan olygu bod yr ysgolion wedi bod ar gau am gyfnod o tua mis. Diolch i barodrwydd Jenny ac Anne i weithio a chydweithio, aethon nhw ati i dreulio'r amser yma yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer y dosbarthiadau gwahanol yr oeddent yn mynd i'w dysgu.

Yn yr Andes cawsom aeaf hir a bu'n rhaid gohirio rhai gweithgareddau oherwydd y tywydd garw ond nid oedd hyn yn broblem i Nia, a ddefnyddiodd yr amser i greu rhifyn o 'Llais yr Andes'.

Mae cyfraniad Jenny at waith y plant wedi bod yn effeithiol iawn gan mai athrawes blant cynradd ydy hi yn ôl yng Nghymru ac roedd ei chyfraniad yn ystod cyfnod absenoldeb Ana Chiabrando ac Esyllt Roberts hefyd yn werthfawr gyda chyrsiau oedolion Trelew a phlant Ysgol y Gaiman. Buodd Anne hefyd yn gweithio gyda mwy o grwpiau yng Ngholeg Camwy yn absenoldeb Esyllt a gwnaeth hi gryn argraff ar y gwaith gydag oedran yr arddegau. Roedd hi'n gallu dysgu grwpiau bach a'u hannog i siarad Cymraeg ac ymarfer y pwnc mewn ffordd fyddai ddim yn bosib tasai hi'n dysgu'r grŵp cyfan (hyd at 35 o bobl ifanc!).

Mae'r tair wedi bod yn barod i fod yn bresennol mewn llawer o weithgareddau allgyrsiol sydd ddim yn ymwneud â'r iaith yn unig ond sydd yn bwysig i ddenu dysgwyr - digwyddiadau fel Cymanfaoedd Canu, capel, te ac yn y blaen. Mae'r tair wedi hyfforddi pobl ar gyfer eisteddfodau boed eisteddfodau ysgol neu eisteddfodau lleol ac maent wedi cystadlu gyda grwpiau dawnsio ac adrodd yn Eisteddfod Chubut. Unwaith eto mae'r tensiwn rhwng dysgu a threfnu gweithgareddau Menter wedi bod yn bresennol gan fod y tair wedi ymgymryd â mwy o ddosbarthiadau oherwydd eu bod nhw'n teimlo'r angen. Mae Anne wedi bod yn cynnig gwersi sgwrsio i bobl lefel Pellach yn y Gaiman fel bod nhw'n datblygu i fod yn siaradwyr annibynnol. Mae dosbarth siaradwyr Trevelin hefyd wedi'i atgyfodi oherwydd bod y gymuned leol wedi gweld eisiau dosbarth o'r fath a bod Nia yn hapus i gymryd mwy o amser i'w arwain.

Mae rôl y swyddogion wedi bod yn bwysig gan eu bod nhw wedi cydweithio'n wych gyda'r cymunedau gan ymateb yn dda i'w hanghenion. Mae'r tair wedi cyfrannu llawer mwy na'r oriau sydd yn eu hamserlen waith. O ran gofynion, maent nid yn unig wedi bod yn barod iawn i ddysgu ond hefyd i drefnu gweithgareddau cymdeithasol cyson ac ymuno mewn gweithgareddau cymunedol fel canu mewn côr, dawnsio gwerin, cydadrodd, beirniadu mewn eisteddfodau, cynorthwyo mewn digwyddiadau wedi'u trefnu gan eraill, a bod ar gael i athrawon a thiwtoriaid lleol eu holi am hyn neu'r llall.

**Arholiadau CBAC 2017**

Eleni roedd 24 o ymgeiswyr wedi sefyll arholiadau CBAC yn y Wladfa: 5 ar y lefel UWCH, 3 ar y lefel SYLFAEN ac 16 ar y lefel MYNEDIAD. Roedd 2 wedi cofrestru ar gyfer yr arholiad CANOLRADD ond methon nhw â chyflwyno'r gwaith ar dâp mewn pryd felly nid oeddent yn gallu sefyll yr arholiad ym mis Mehefin. Mae'n anodd trefnu ar gyfer hynny gan bod dosbarthiadau yn dechrau yn agos iawn at ddyddiad cyflwyno'r gwaith wedi'i recordio.

Mae cynnig yr arholiadau wedi rhoi statws i'r iaith o fewn y gymdeithas ac yn sicr mae'n creu symbyliad dros astudio. Mae sefyll arholiad rhyngwladol yn bwysig i bobl sydd yn astudio ieithoedd eraill yn yr Ariannin ac mae'n rhoi'r Gymraeg ar lefel gyfartal â'r Saesneg, er enghraifft. Mae derbyn tystysgrif hefyd yn rhoi hwb i'r dysgwyr, sydd yn ymdrechu i ddysgu'r Gymraeg mor bell oddi wrth ei chrud. Rydym yn ddiochgar tu hwnt i CBAC, ac i Emyr Davies yn bennaf am wneud hyn yn bosib, gyda'r drafferth ychwanegol mae'n creu iddo fo a'i dîm.

Y siom fwyaf eleni oedd bod 2 o'r 3 safodd Sylfaen wedi methu: yn bennaf credaf nad oedd y ddau ymgeisydd yn gyfarwydd iawn gyda sefyll arholiadau o'r fath, ond yn sicr mae wedi pwysleisio pwysigrwydd cael tiwtoriaid proffesiynol sydd yn deall nad mater o orfen unedau'r cwrs ydy dysgu Wlpan ond yn hytrach dysgu *defnyddio'r* iaith. Wrth gwrs mae hyn yn pwysleisio'r angen am gyrsiau newydd lle mae'r sgiliau yn integredig a bod llawer o gyfleoedd darllen a gwrando, y sgiliau sydd bob amser yn fwy o her i fyfyrwyr sydd y tu allan i'r cyd-destun lle y clywir y Gymraeg yn naturiol.

| Lefel | Ymgeiswyr | Methu | Pasio | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| **MYNEDIAD** | 16 | 1 | 15 | Ddim yn bodoli |
| **SYLFAEN** | 3 | 2 | 1 | 0 |
| **CANOLRADD** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **UWCH** | 5 | 0 | 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | 24 | 3 | 18 | 3 |

**Dysgu Dosbarthiadau**

**Dyffryn Camwy:** Gan fod dwy athrawes yn y Dyffryn, mae rhannu'r gwaith rhwng y ddwy wedi bod yn effeithiol iawn gydag Anne a Jenny yn defnyddio'u doniau yn eu meysydd arbenigol. Mae Jenny wedi cyfrannu at Gymraeg disgyblion Ysgol yr Hendre gan ddefnyddio ei hamser yno i ymestyn eu hiaith ac i'w hannog i siarad. Yn Ysgol y Gaiman mae wedi bod yn gyfrifol am ddosbarth a chan ei bod hi'n athrawes blant cynradd, roedd ei chyfraniad yn un gwerthfawr ac yn un sydd wedi dylanwadu ar athrawon lleol yn yr ysgol. Mae mor bwysig cael mewnbwn athrawon proffesiynol yn yr ysgolion dwyieithog gan fod disgwyliadau addysg yn y Wladfa mor wahanol i ddisgwyliadau addysg ddwyieithog fel rydym yn ei adnabod yng Nghymru.

Yn achos Anne, sydd yn athrawes uwchradd, mae hi wedi cyfrannu at sawl maes ond mae hi yn sicr wedi cael effaith ar ddisgyblion Coleg Camwy gan gydweithio gydag athro'r disgyblion hŷn er mwyn canolbwyntio ar sgiliau llafar fydd yn eu paratoi ar gyfer yr arholiadau. Byddai'n dda petai hyn yn parhau gan y Swyddog fydd yn y Gaiman yn 2018.

**Yr Andes:** mae'r her yn yr Andes yn fwy gan fod disgwyl i'r Swyddog Datblygu o Gymru fod yn feistr ar bob lefel iaith ac oedran ac i fod yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau cymdeithasol hefyd.

Yn ystod 2017, roedd hyn yn flinedig i Nia. Mae hi wedi dysgu ar bob lefel ac oedran ond does dim digon o oriau gan y Swyddog i wneud popeth, felly mae cryn bwysau ar y tiwtoriaid lleol. Mae angen bod yn hollol hyblyg!

**Deunydd dysgu**

Mae'r deunydd sydd yn cael ei ddefnyddio gyda phlant ac oedolion yn gorfod dod o Gymru ac mae goblygiadau cost a chludiant, felly weithiau mae diffyg deunyddiau yn her i athrawon sydd wedi arfer ag ysgolion gorlawn Cymru! Mae deunydd ar gyfer oedolion, yn enwedig y cyrsiau hefyd yn her ond mae gobaith oherwydd mae cyrsiau newydd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar y ffordd cyn bo hir.

Roedd yr arian ychwanegol a ddaeth er mwyn prynu adnoddau dysgu yn cael ei groesawu yn fawr ac aethpwyd ati i wario bob ceiniog. Diolch yn fawr i bawb fu'n weithgar i alluogi hyn.

**Eisteddfodau**

Oherwydd sefyllfa ariannol y Dalaith - a'r wlad - roedd eisteddfodau 2017 rhywfaint yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol gan fod pobl yn gorfod gweithio mwy yn wyneb y problemau ariannol ac roedd llawer llai o gymorth gan y llywodraeth a mudiadau allanol o ran noddi ayyb. Nid oedd arian ar gael i helpu'r bobl o'r Dyffryn deithio i'r Andes ar gyfer Eisteddfod Trevelin nac i bobl yr Andes deithio i Eisteddfod y Wladfa. Er hyn roedd digon o gystadlu yn Gymraeg yn yr eisteddfodau i gyd, rhywbeth sydd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nid yn unig faint i gystadlu ond yr ansawdd hefyd.

Mae Swyddogion y Cynllun wedi cyfrannu'n ddiwylliannol nid yn unig wrth ganu mewn corau, dawnsio, cydadrodd ond hefyd wrth feirniadu a chynorthwyo i baratoi disgyblion ar gyfer y cystadlaethau. Mae hyn yn rôl sydd yn cael ei amlinellu yn y swydd-ddisgrifiad wrth reswm, ond roedd y swyddogion eleni wedi rhoi uwchlaw'r gofyn mewn i sawl eisteddfod.

**Taith yr Urdd**

Fel yn y deng mlynedd diwethaf, daeth criw'r Urdd allan ar eu taith eleni. .

Mae pawb yn cytuno bod y profiad i bobl ifanc (a ddim mor ifanc!) yn y Wladfa yn bwysig gan fod nhw yn cwrdd â chyfoedion o wlad hollol wahanol a phell sydd yn siarad Cymraeg ac mae yn sicr yn rhoi hwb i Eisteddfod y Wladfa weld safon perfformio rhai o'r bobl ifanc. O ran cyfnewid, byddai mor hyfryd tasai ffordd i bobl ifanc y Wladfa gael teithio draw i Gymru fel criw.

**Luned Gonzalez**

Mae rôl Luned yn y Cynllun a'i chyfraniad trwy'r blynyddoedd yn amhrisiadwy ac unwaith eto rwyf yn bersonol wedi elwa o'i doethineb a'i gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi cydweithio yn gyson ac wedi bod ar gael ar ochr arall y ffôn/Skype yn rheolaidd er mwyn trefnu'r pethau sydd yn codi o ddydd i ddydd. Roedd y gaeaf yn hir yn y Dyffryn ac yn yr Andes ond mae Luned wedi bod yn bresennol ac yn fan cyswllt i'r swyddogion yn Nyffryn Camwy mewn modd nad yw'n bosibl imi oherwydd y pellter ar draws y dalaith.

Gyda rhaglenni fel WhatsApp a Skype mae’r tri swyddog wedi bod mewn cysylltiad mwy nag erioed gyda’i gilydd a gyda fi,  ond mae rhai pethau sydd yn bendant yn cael eu gwneud oherwydd bod Luned yn eu hannog a rhaid bod yn ddiolchgar am ei hymroddiad i’r achos unwaith eto eleni.

**I gloi**

Wrth ddathlu 20 mlynedd ers genedigaeth y prosiect mae’n sicr bod y prosiect yn parhau i fod yn berthnasol ac mae’n bwysig cofio bod y bobl a wnaeth elwa o’r cyfle i ddysgu’r Gymraeg gyda’r Cynllun yn y blynyddoedd cynnar nawr yn gweithio nôl gyda’r Cynllun er mwyn sicrhau mwy o dwf yn y dyfodol. Yn ddiweddar, mae’r ffaith bod y ffocws wedi newid o sector yr oedolion tuag at y bobl ifanc yn dangos esblygiad yn y ddarpariaeth sydd yn arwydd bendant bod y cynllun yn dal yn fyw!

Mae’n amhosib ystyried faint o waith sydd yn cael ei wneud ar yr union un cyllid sydd wedi bod gennym ers blynyddoedd ac mae hyn yn dangos mai pobl y Wladfa biau’r cynllun bellach.  Byddai hyn ddim wedi digwydd heb y buddsoddiad gwreiddiol o Gymru, ac er mwyn gweld hyn oll yn tyfu i fod yn rhywbeth parhaol bydd angen parhau’r gefnogaeth ariannol a dynol o Gymru am rai blynyddoedd i ddod eto, ond mae digon o resymau i ddathlu eleni er hynny.

Clare Vaughan Rhagfyr 2017

## ASTUDIAETHAU ACHOS

Ricardo Javier Evans – Y Gaiman, Chubut.



Helo. Ricardo ydy fy enw i. Ces i fy ngeni yn y Gaiman yn y flwyddyn 2000.  Pentref bach neis yn Nyffryn Camwy ydy o a dwi dal i fyw yma, 17 o flynyddoedd wedyn!  Dw i'n astudio yn Ngholeg Camwy a dw i yn y bumed flwyddyn. Fy hoff wersi ydy Cymraeg a Hanes. Rwy'n hoffi cyfieithu hen bapurau newydd fel "Y Drafod" yn yr Amgueddfa Hanes yn yr "Hen Orsaf Drên" yma yn y Gaiman.  Mae gen i lawer o ddiddordeb yn hanes Cymru a´r Cymry a wnaeth ddod i Batagonia nôl yn 1865. Mae gen i lawer o ddiddordeb i ddysgu am hanesion teulouedd Patagonia gan fy mod fy hun yn dod o deulu Cymreig. Dwi´n hoffi ymweld â ffermydd teuluoedd o Gymru, achos mae fy nhaid a'm nain yn ffermwyr yma. Ac nid yw'r gwaith yng Nghymru yn debyg i Chubut, rwy'n credu, beth bynnag! Yn ogystal, ar brynhawn Gwener, dw i'n helpu Luned Roberts Gonzalez efo'i rhaglen radio "Amser Cymraeg". Fi sydd yn dewis cerddoriaeth y rhaglen radio. Pan fydd gen i amser, dw i'n licio beicio yn y bryniau (ardal o'r enw Bryn Gwyn) ac mae parc anthropolegol diddorol yna.

Eleni, fe benderfynais ymgeisio am Ysgoloriaeth Tom Gravell yng Ngholeg Llanymddyfri, ac mi fues i´n lwyddiannus.

Un o´r rhesymau am ymgeisio oedd, mae’n gyfle gwych i deithio ac i ddod i adnabod gwlad fy mreuddwydion, cyfle i wneud ffrindiau, cyfle i'r rhai nad oes ganddynt lawer o arian i deithio, dw i´n credu mi fasai mynd i Gymru yn brofiad cyfoethog, ac nid oes gen i ddigon o arian i wneud y daith hon ar fy liwt fy hun yn anffodus. Mae fy rhieni yn gweithio, ond byddai'r daith yn gostus iawn iddynt. Edrychaf ymlaen hefyd i ddysgu yr iaith Gymraeg yn yr “Hen Wlad”. Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i mi gan ddaeth fy hen nain o Gymru tua 1880. Hefyd, mae'r iaith yn dda i weithio gyda phobl sy'n dod o Gymru, a deall yr hyn y maen nhw’n ei ddweud.

Hoffwn I fanteisio ar y cyfle i ddod i adnabod Cymru a´i phobl a dw i´n edrych ymlaen yn fawr iawn i astudio, i gwrdd a phobl newydd a hefyd profi Gaeaf Cymru!

# Dysgu´r Gymraeg



Alcira ydw i. Rydw i’n byw yn Nhrelew ac rydw i’n gweithio fel athrawes yn Ysgol yr Hendre. Ysgol ddwyieithog ydy hi. Rydw i’n dysgu Cymraeg yma, i blant blwyddyn 2 a blwyddyn 3.

Es i’r ysgol yn Nhrelew. Pan orffennais i'r ysgol uwchradd es i i Buenos Aires i astudio yn y brifysgol. Roeddwn i’n byw yno am chwe blynedd. Astudiais Cyfathrebu, ac ar ôl gorffen des i nôl i Drelew.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn 2007. Gwnes i gwrs Wlpan 1. Fy athrawesau ar y pryd oedd Ana Chia a Romina Herrera.

Yn 2012 Dechreuais i fel athrawes yn yr ysgol ac o’n i’n dal i astudio’r Gymraeg gydag Ana.

Es i i Gymru yn 2014 i arsylwi mewn ysgolion. Roedd yn brofiad gwych i weld sut mae athrawon yn dysgu yng Nghymru, ac i gael syniadau. Bues i i mewn dwy ysgol, yng Nghaerdydd ac yng Ngogledd Gymru, Llanrwst, am ddau fis.

Rydw i’n siarad Cymraeg bob dydd yn yr ysgol a phan rydw i’n mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol Cymraeg. Rydw i’n mwynhau mynd.

Yn haf 2017, cefais gyfle i fynd i Gymru am gyfnod ar ôl ennill ysgoloriaeth i ddilyn cwrs Cymraeg ym mhrifysgol Aberystwyth.

Bob dydd, roeddwn yn mynd i´r brifysgol o 9 y bore hyd at 5 o´r gloch y prynhawn. Roeddwn yn dilyn cwrs Meistroli´r Gymraeg, grŵp 2. Ar ôl i´r sesiynau dysgu ddod i ben bob dydd, roedd yna amryw o weithgareddau yn seiliedig ar y Gymraeg yn cael eu cynnal.

Un diwrnod roedd yna daith gerdded o amgylch ardal Aberystwyth a thro arall roedd yna noson Geltaidd. Roedd hefyd nosweithiau yn y dafarn a nosweithiau dawnsio. Gweithgareddau oedd y brifysgol wedi eu trefnu oedd y rhain, er mwyn hyrwyddo´r Gymraeg, a rhoi cyfle i´r myfyrwyr ddefnyddio eu hiaith.

Roeddwn i eisiau mynychu´r cwrs yma yng Nghymru er mwyn gwella fy Nghymraeg - fy sgiliau siarad a iaith. Cyn mynd, roeddwn yn gobeithio y byddai´r cyfnod yma yn fy ngalluogi i wella rhuglder fy iaith ar lafar a hefyd gwella fy sgiliau ysgrifenedig.

Dwi´n gobeithio fod y cwrs wedi fy ngalluogi i fod yn athrawes fwy effeithiol yn yr ysgol oherwydd gyda sgiliau iaith well gallaf gefnogi a datblygu´r disgyblion ymhellach yn eu hiaith hwythau.

Gan Alcira Williams



**Alcira (yr ail o’r dde) gydag enillwyr eraill Ysgoloriaeth Cwrs yr Haf 2017**
**Hefyd yn yn llun (ar y dde) mae Efa Gruffudd o’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

# Tystiolaeth bersonol o effaith y Cynllun Cymraeg ym Mhatagonia




**Grisel Roberts yn gweithio fel tiwtor Cymraeg yn yr Andes**

Mae Grisel Roberts yn un o lwyddiannau mwya´r cynllun dysgu Cymraeg yn y Wladfa. Dechreuodd ddysgu Cymraeg gyda Hazel Charles Evans yn Esquel. Teithiodd hi nifer o weithiau i Gymru i astudio ymhellach ac erbyn hyn, mae´n hollol rugl yn y Gymraeg.
Yn 2017, roedd Grisel yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu traethawd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Dyma gystadleuaeth sy’n cael ei threfnu’n flynyddol gan Gymdeithas Cymru-Ariannin ar gyfer brodorion Patagonia.

**“20 mlynedd Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut - llwyddiant?”**
Pigion o draethawd buddugol Grisel Roberts.

Mae’r detholiad yma’n cael ei gynnwys gyda chaniatâd Eiteddfod Genedlaethol Cymru

(....) Dechreuais i ddysgu Cymraeg ym 1998, blwyddyn ar ôl i'r cynllun ddechrau yn Esquel. Roeddwn i'n un deg pedwar oed. Roedd fy nain yn arfer dweud roedd fy nhaid yn deal pob gair ond ni allai siarad. Roedd fy nheulu ochr fy nhad yn ddisgynyddion o'r Cymry cyntaf, ond roedd hwn yn golygu dim ond te am bump o'r gloch, straeon byrion yr ymfudwyr cyntaf cyn mynd i'r gwely a rhai geiriau fel “nain” a “taid” yn ein beunydd Sbaeneg.

Bu farw fy nhaid pan roeddwn i'n ddeuddeg oed. Ar ôl iddo fe farw, yn ogystal a llawer mwy o bethau, collon ni (tad, chwiorydd, modryb, ewyrth, cefndryd a chyfnitheroedd) ein cysylltiad gyda'r iaith. Roedd fy nhaid yn teimlo'n Gymraeg a roedd e'n Gymro i'r carn, meddan nhw. Roedd ganddo fe gymeriad Cymreig, wyneb Cymreig, ffordd Gymreig o gerdded a ffordd Gymreig o siarad Sbaeneg, meddan nhw. Doeddwn i ddim wedi cyfarfod pobl o Gymru, felly fyddwn i ddim yn gwybod. Ond roeddwn i'n gwybod ei fod wedi gallu deall Cymraeg ac nid oedd wedi gallu siarad Cymraeg. Roeddwn i'n sicr y byddai wedi hoffi i mi wneud yr hyn doedd e ddim yn gallu. Felly, penderfynais i gofrestru i'r dosbarthiadau Cymraeg er mwyn ceisio helpu'r hiraeth, a'i gadw fe gyda fi a'i wneud fe'n falch. O'r foment honno ymlaen, roedd yr iaith Gymraeg yn fy nilyn fel ysbryd.

Dysgais i am bedair mlynedd cyn roedd rhaid i mi symud i La Plata, ger Buenos Aires i fynd i'r brifysgol.
Yn La Plata, ches i ddim athrawon na chyrsiau chwaith, ond gwnes i llawer o bethau i gadw cysylltiad gyda'r Gymraeg.
Ces i gyfle i ffeindio pobl eraill o Chubut a dechreuais i ddysgu nhw Gymraeg a llwyddais i gadw fy safon yn y Gymraeg trwy gydol y blynyddoedd roeddwn i'n byw i ffwrdd o Esquel, mewn man lle nad oes neb yn siarad Cymraeg. Es i i fyw i Awstralia am flwyddyn wedyn a roeddwn i'n cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau gyda'r nod o hybu Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Symudais i yn ôl i Esquel ddwy flynedd yn ôl ac ymunais i â dosbarth Cymraeg eto. Yn 2016 dechreuias i ddysgu fel athrawes, sefais i arholiad Canolradd a ches i ysgoloriaeth (y Cynllun Cymraeg, yn cael ei weinyddu gan y Cyngor Prydeinig) i fynd i Gaerdydd i astudio Cymraeg mewn cwrs Uwch.
Dw i'n dal i astudio Cymraeg fel myfyrwraig a dw i'n dal i ddysgu Cymraeg fel athrawes. Ers i mi ddechrau astudio Cymraeg, un deg naw mlynedd yn ôl, dw i ddim wedi rhoi'r gorau i astudio Cymraeg a gwneud pethau i'w hyrwyddo. Fydda i ddim yn rhoi'r gorau oherwydd, dw i wedi darganfod, hwn ydy fy ffordd o deimlo'n agosach at fy hynafiaid.

Felly, mae y Gymraeg wedi bod yn rhan bwysig iawn yn fy mywyd. Fodd bynnag, nid felly oedd hi i fod: cyn 1997 doedd dim siawns o gwbl gyda fi i ddysgu na siarad Cymraeg.

Dw i'n deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg oherwydd y prosiect hwn. Mae'r prosiect hwn wedi dysgu fi fy ngair Cymraeg cyntaf a wedi gwneud fi yr un cyntaf yn fy nheulu i siarad Cymraeg. O fy nhaid ymlaen, fe wnaeth y Gymraeg neidio un genhedlaeth a ffeindio fi a thrwy ddysgu a siarad Cymraeg, dw i'n meddwl fy mod i'n anrhydeddu fy hynafiaid. (....)

Dw i ddim yn gwybod yn union sut oedd y sefyllfa yr iaith Gymraeg cyn i'r cynllun ddechrau. Ond dw i wedi bod yn dyst i lawer o bobl yn dechrau gwersi Cymraeg a dechrau siarad a'u hen taid a nain. Dw i wedi bod yn dyst i ysgolion dwyieithog yn agor eu drysau. Dw i wedi bod yn dyst i adeiladau yn mynd i fyny lle 'nid cerrig ond cariad yw'r meini'. Dw i wedi bod y dyst i'r capeli yn agor eu drysiau eto a dw i wedi clywed gwasanaethau a chanu emynau yn y Gymraeg.

Dw i wedi bod yn dyst i'r bobl o'r Ariannin yn mynd i Gymru i ddysgu Cymraeg am y tro cyntaf, dw i wedi gweld nhw yn astudio yn galed. Dw i wedi bod yn dyst i'r athrawon o Gymru yn cydweithio oriau maith gyda ni. Dw i wedi gweld pobl o Gymru yn dod yma i addysgu, i helpu, i gwrdd â ni fel brodyr. Dw i wedi bod yn dyst i'r nerthiad o'r cysylltiad rhyndgon ni. Dw i wedi bod yn dyst i'r dathliadau ar gyfer y cantpumdeg mlwyddiant ers dyfodiad y Cymry a dw i wedi bod yn dyst i'r pobl o Chubut yn canu 'Yma o hyd' a'r anthem genedlaethol gyda'r un teimlad â'r Cymry.

Dw i wedi bod yn dyst i'r ymwybyddiaeth Cymraeg yn datblygu ym mhob un ohonom. Dw i wedi bod yn dyst i'r cyfnewid digynsail rhwng y ddwy wlad, y ddwy wlad yn fwy ymwybodol o fodolaeth y llall. Ers i mi ddechrau ddysgu Cymraeg, dw i wedi bod yn dyst i'r ddau diwylliant yn dod yn agosach at ei gilydd.

Dyn ni'n Archentwyr, mae'n wir. Nid Cymry dyn ni. Ond dyn ni'n teimlo fel Cymry ac dyn ni'n teimlo fel Cymry ar gyfer yr iaith. Yma mae pobl yn ymdrechu i addysgu a dysgu Cymraeg. Mae pobl yn buddsoddi arian ac amser, eu hiechyd a'u bywydau er mwyn dysgu Cymraeg, er mwyn addysgu Cymraeg, er mwyn trosglwyddo'r diwylliant.

Yn yr Ariannin, ni fydd addysgu a dysgu Cymraeg yn cael swydd well i chi. Ni fydd yn gwneud i chi ennill mwy o arian. Ni fydd yn rhoirhagolygon gwell na chwaith yn edrych yn wych ar eich CV.

Nid yw'n cael ei annog gan y llywodraeth. Nid yw hyd yn oed yn cael ei ddefnyddio tu allan o'n talaith (dydy gweddill y wlad ddim yn gwybod hyd yn oed ble mae Cymru).
Ni fyddwch yn cael y cyfle i ddefnyddio neu wrando ar Gymraeg bob dydd ac nid yw llawer yn ei siarad yn y byd. Mae pob un ohonon ni wedi dewis astudio Cymraeg gyda ein calonnau, nid gyda ein meddwl. Sut dyn ni'n gallu mesur llwyddiant y cynllun iaith Gymraeg yn Chubut?
Gan faint? Gan ansawdd? Gan ystadegau?

Dw i'n mesur llwyddiant y cynllun iaith yn y fford mae e wedi newid fy mywyd. Mae'r cynllun wedi datblygu yr iaith ac angerdd tuag at yr iaith, ond nid dim ond yr iaith.

Mae'r cynllun wedi gwneud i ni deimlo fel rhan o Gymru, wedi datblygu diwilliant Cymreig ym Mhatagonia ac ymwybyddiaeth ddofn o ein hunaniaeth.

O ran y dyfodol, dw i'n gallu ragweld mwy fyth o ddatblygiad yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn Chubut; efallai nad oes dim llawer iawn ohonon ni, ond dyn ni'n benderfynol.

Mae eich brwydr dros yr iaith a'r diwylliant Cymreig ydy ein un ni hefyd. Dyn ni'n gwybod nad dyn ni ar ein pennau ein hunain, dych chi ar yr ochr honno o'r Iwerydd ac mae'r cynllun yn gymorth i wneud y bond yn gryfach.

Os dw i'n gallu ysgrifynnu hwn ac os dych chi'n gallu darllen hwn, mae oherwydd y cynllun i ddysgu Cymraeg, yr athrawon a'r ysgoloriaethau gefais. Y darn hwn ydy'r prawf o'r cynllun iaith ym Mhatagonia; er efallai fod camgemeriadau a mae e'n syml iawn, mae e'n brawf dyn ni wedi dysgu Cymraeg a dyn ni'n dal i ddysgu achos dyn ni eisiau gwella.

Dyn ni yma o hyd, hyd yn oed y to ifanc. Dw i'n teimlo yn ferch o'r cynllun hwn, fel llawer ohonom. Dw i'n teimlo rhan ohono fe, o'r bobl sy'n gweithio'n galed ar ei gyfer ar yr ochr yma ac ar yr ochr honno o'r Iwerydd a dw i'n ddiolchgar o'r adnoddau a chronfeydd agawn ni bob blwyddyn.

Dw i'n gobeithio y gall llawer mwy o bobl gael yr un cyfleoedd a gefais i, er mwyn galluogi eich iaith, ein hiaith, i gael ei siarad ym Mhatagonia am lawer o flynyddoedd i ddod. Ar ôl ugain mlynedd, dw i'n dathlu fy ailgeni, genedigaeth fy hunaniaeth Gymreig. Dw i yn un o'r rhai sy wedi dysgu Cymraeg gan gychwyn o ddim. Merch o genhedlaeth y cynllun i'r carn.



## Argymhellion 2016: Adroddiad Cynnydd

**1 Bydd y Cynllun yn dathlu pen-blwydd yn 20 oed yn 2017.**
**Dyma gyfle da felly i edrych o'r newydd ar beth rydym yn ceisio ei gyflawni ac ar y dull o'i weithredu.**
**Byddwn felly yn cynnal arolwg o waith a strwythur y Cynllun yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn nesaf gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn mis Gorffennaf.**

*Gan na gynhaliwyd Taith Arsylwi eleni, ni lwyddwyd i drafod strwythur na chyrhaeddiad y Cynllun Cymraeg mewn unrhyw ddyfnder gyda'n rhanddeiliaid ym Mhatagonia.*
*Y gobaith yw y bydd hi'n bosib dod nôl at hyn yn ystod Taith Arsylwi 2018.*

**2 Cyllid. Soniwyd mewn sawl adroddiad blynyddol am sefyllfa fregus y cyllid. Hyd yma, yn anffodus, does dim wedi newid. Ers cyfnod o ryw 10 mlynedd, mae'r Cynllun wedi derbyn yr un math o arian, ac oherwydd bod chwyddiant yr Ariannin yn rhyw 30%, mae gwerth yr arian hynny'n crebachu'n flynyddol. Mae'r Cynllun wedi cyflawni cymaint gydag arian bach iawn ar hyd y blynyddoedd ac mae'n rhyfeddol bod y niferoedd wedi parhau i wella.**
**Nid oes mod i'r cynnydd yma barhau oni bai bod lefel y cyllid yn gwella, er mwyn gallu talu'n haeddiannol i'r Swyddogion Datblygu o Gymru a'r tiwtoriaid lleol. Nid oes modd chwaith cynnig darpariaeth gynhwysfawr mewn ardaloedd fel Comodoro na Phorth Madryn.**
**Dim ond trwy gyflogi mwy o Swyddogion mae modd gwella a datblygu. Am swm gymharol fechan, byddai modd gwneud cymaint o wahaniaeth i'r ddarpariaeth yn y Wladfa.**

*Does dim newid wedi bod yn sefyllfa'r cyllid yn ystod 2017. Mae Cynllun Cymraeg Patagonia yn dod o dan adain Cynllun Addysg Ryngwladol Llywodraeth Cymru a gwelwyd toriadau yng nghyllid y mwyafrif o raglenni'r Cynllun hwnnw yn ystod 2017. Gan mai swm gymharol fechan mae Cynllun Cymraeg Patagonia yn ei dderbyn, rydym yn ddiolchgar mewn gwirionedd y llwyddwyd i gynnal ein cyllid ar yr un lefel â'r llynedd.*

*Mae sefyllfa fregus y Cyllid - a'r dirywiad real ynddo oherwydd lefel uchel chwyddiant yr Ariannin (30%) - yn rhannol gyfrifol am ddirywiad yn nifer y dosbarthiadau a niferoedd y dysgwyr eleni. Un o'r rhesymau am hyn yw nad oes modd cynnig tâl haeddiannol i'r tiwtoriaid lleol am ddysgu inni. Wrth ystyried y raddfa gyfnewid bresennol (Punt/Peso - Ionawr 2018) mae'r tiwtoriaid lleol yn derbyn gwerth £2.50 yr awr gennym.*
*Does dim modd recriwtio tiwtoriaid newydd na chynnal y rhai presennol os parhawn i gynnig y math yma o dâl.*

*Ffactor arall a effeithiodd ar ein cyllid eleni oedd y newidiadau yn y mathau o drwyddedi (visas) gwaith ar gyfer ein tri Swyddog Datblygu. Bu'n rhaid defnyddio talp sylweddol o arian craidd y Cynllun eleni (tua 20%) i dalu am y weinyddiaeth a'r trwyddedau gwaith.*

*Byddai'r Cynllun yn elwa llawer ar sawl lefel hefyd pe byddai'n bosib dychwelyd at gynllun cyllido tair blynedd. Byddai hyn nid yn unig yn cynnig elfen o sicrwydd ond byddai hefyd yn caniatáu inni gynllunio'n lawer mwy effeithiol dros y tymor hir.*

**3 Mae'r cynnydd yn y niferoedd o flwyddyn i flwyddyn yn rhywbeth i'w ddathlu. Tra bydd niferoedd yn parhau'n bwysig, bydd y pwyslais mwyaf yn ystod 2017 ar Ansawdd. Bydd angen felly ehangu cynllun Hyfforddiant Tiwtoriaid ac Athrawon er mwy gwireddu'r nod o wella ansawdd.**

*Ni lwyddwyd i wella ar gyfanswm nifer y dysgwyr yn ystod 2017.*
*O ran hyfforddiant, cynhaliwyd rhai sesiynau hyfforddiant gan Gydlynydd Dysgu'r Cynllun yn yr Ariannin, Clare Vaughan. Tra bod hyn yn diwallu anghenion tymor byr y tiwtoriaid, mae angen buddsoddi mewn cynllun hyfforddiant tiwtoriaid mewn modd strwythuredig a chynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Dim ond gyda chwistrelliad o gyllid ychwanegol y gellir gwireddu hyn, oherwydd does dim modd ariannu cynllun o'r fath gyda'r arian presennol.*
*Hyd nes y gwneir hyn, ni fydd yn bosib gwella llawer ar ansawdd y dysgu.*

**4 Gwella a chynyddu nifer dosbarthiadau Oedolion, gan ganolbwyntio ar y dosbarthiadau Uwch.**
*Ni lwyddwyd i wella ar gyfanswm y dosbarthiadau Oedolion ar draws Chubut eleni, er hynny gwireddwyd y nod o wella ar niferoedd cyrsiau ôl-Wlpan.*

*O ran y cyrsiau Canolradd ac Uwch ar draws y dalaith, mae'n bleser nodi y gwelwyd codiad o 93.7% yn niferoedd Canolradd a 28.5% yn niferoedd y cyrsiau Uwch. Mae hyn yn dangos yn glir bod y rhai a fu'n astudio ar gyrsiau Wlpan a Chanolradd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn ddigon hyderus i barhau â'u dysgu i drosglwyddo i gyrsiau ar lefel uwch. Yr unig gynnydd yn niferoedd dosbarthiadau lefel Hyfedredd eleni oedd yn yr Andes - codiad o 50%. Newyddion arbennig o dda.*

**5 Cynllunio a gweithredu cynllun marchnata newydd ar draws y dalaith er mwyn denu mwy o rieni plant yr ysgolion dwyieithog i ddosbarthiadau oedolion.**

*Does dim digon o gyllid nag adnoddau dynol gan y Cynllun i gynllunio na gweithredu rhaglen farchnata gynhwysfawr. Er hynny, mae staff y Cynllun yn gwneud llawer o ddefnydd o weisg a chyfryngau torfol lleol er mwyn lledaenu'r neges am y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.*

*Bellach, gwneir defnydd helaeth o'r cyfryngau Cymdeithasol, megis Gweplyfr, Instagram a Twitter i gysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd ac maent wedi profi'n arfau effeithiol a chyflym o ledaenu gwybodaeth am y dosbarthiadau. Wedi dweud hyn, mae angen parhau i dargedu rhieni plant yr ysgolion dwyieithog ym mhob dull posib er mwyn eu darbwyllo i ddysgu'r Gymraeg. Byddai cael swyddog (ion) MENTER penodol i weithio yn y Wladfa yn mynd peth o'r ffordd i wella'r ymwybyddiaeth am y dosbarthiadau Cymraeg.*

**6 Cynnal a chryfhau'r sector Cynradd wrth barhau i gefnogi'r tair Ysgol Gynradd ddwyieithog.**

*Mae'r Cynllun wedi bod yn cefnogi'r Ysgolion Dwyieithog yn rheolaidd ers sefydlu Ysgol yr Hendre - yr ysgol gynradd ddwyieithog gyntaf - yn 2006. Rydym yn gwneud hyn trwy dalu cyfraniad tuag at gost oriau staff yr ysgolion a thrwy sicrhau bod Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn gweithio am gyfnodau yn uniongyrchol yn yr ysgolion. Yn y broses flynyddol o recriwtio Swyddogion Datblygu, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn cyflogi athrawon a thiwtoriaid arbenigol - Cynradd/Uwchradd er enghraifft- fel eu bod yn gallu cyfrannu at waith pwysig yr Ysgolion Dwyieithog.*
*Mae oriau gwaith y Swyddogion Datblygu wedi bod yn raddol ogwyddo tuag at weithio mwy gyda, ac yn yr Ysgolion Dwyieithog, ond mae'n rhaid bod yn wyliadwrus nad ydym yn amddifadu'r sectorau eraill trwy roi ein holl egni a chyllid i un sector yn unig.*

*Mae'r ysgolion yn bwysig, mae hynny'n ddiamheuol, ond gan mai cyllid bychan sydd gan y Cynllun, mae'n bwysig sicrhau ei fod yn cael ei daenu'n ofalus ar draws yr holl sectorau.*

*Mae dyletswydd arnon ni i barhau cynnig ystod eang o ddarpariaeth ar draws y sectorau gan gynnwys siaradwyr lled-rhugl, dechreuwyr pur ac uwch, rheini plant yr ysgolion dwyieithog a'r arddegau. Nid oes darpariaeth addysg Gymraeg Uwchradd nac Uwch ar gael yn yr Ariannin - heblaw am ychydig o ysgolion uwchradd yn Nyffryn Camwy - felly, hyd nes bod y sefyllfa yn newid, dim ond y Cynllun sydd â'r gallu i ddiwallu anghenion y sector ôl-gynradd. Wrth i'r ysgolion dwyieithog ddechrau cyflogi athrawon yn uniongyrchol o Gymru eu hunain, mae hyn yn golygu ein bod yn gallu rhoi ychydig mwy o sylw i ddysgu sectorau eraill fel yr Oedolion.*

**7 Cydweithio gyda Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol Cymru i addasu cyrsiau oedolion newydd ar gyfer y Wladfa erbyn 2018.**

*Diolch i haelioni'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, bydd y cyrsiau newydd maent yn eu datblygu ar gyfer Oedolion yng Nghymru ar gael inni eu defnyddio ym Mhatagonia ac mae'r broses o'u haddasu a'u cyfieithu eisoes ar waith. Cynllun tymor hir fydd hwn, gan ddechrau gyda'r cwrs Mynediad. Addasir y cyrsiau eraill - mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor - wrth iddynt ddod ar gael inni dros y blynyddoedd nesaf.*

**8 Dechrau defnyddio'r ystafelloedd dosbarth newydd Canolfan Esquel.**

*Mae'n galonogol nodi bod y gwaith o adeiladu estyniad i Ganolfan Esquel wedi mynd yn dda, a bydd yr ystafelloedd dosbarth ar gael i'w defnyddio yn ystod 2018. Bydd y gwaith adeiladu yn parhau gyda'r bwriad o gwblhau'r llyfrgell ac ystafelloedd byw i'r Swyddog Datblygu o Gymru yn ystod y flwyddyn.*

**9 Creu partneriaethau strategol newydd - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yr Urdd a Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cyfoethogi'r Cynllun.**

*Mae'r Urdd yn aelod o bartneriaeth Cynllun Cymraeg Patagonia eisoes, ac fel arwydd o'r ymroddiad i waith y Cynllun, maent wedi sefydlu Ysgoloriaeth flynyddol Profiad Gwaith fel bod pobl ifanc o'r Wladfa yn gallu treulio cyfnod o saith wythnos mewn gweithleoedd Gymraeg ei hiaith.*
*Bellach, mae Eiry Miles yn cynrychioli'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar Bwyllgor y Cynllun ac yn gyfrifol am gynnig tair Ysgoloriaeth i fyfyrwyr o Batagonia astudio am fis ar Gyrsiau Haf yng Nghymru. Rydym yn parhau mewn trafodaethau gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor am eu cyfraniadau unigol i'r Cynllun gyda'r gobaith o'u cwblhau yn ystod 2018.*

**10 Gweithio i gynnal mwy o weithgareddau anffurfiol Cymraeg er mwyn cryfhau'r gwaith o gymdeithasoli'r iaith yn y gymuned.**

*Mae'r gwaith allgyrsiol o gymdeithasoli iaith yn allweddol bwysig i ddatblygiad y Gymraeg yn Chubut. Trefnir digwyddiadau amrywiol yn rheolaidd gan y Swyddogion Datblygu a'r gymuned leol ar draws y dalaith ac mae eu cyfraniad yn cyfoethogi profiad y dysgwyr a'r siaradwyr fel ei gilydd.*

*Dim ond 25% o amser y Swyddogion Datblygu sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y gwaith yma, a byddai'n wych pe byddai'n bosib sicrhau cyllid ychwanegol i gyflogi swyddog (ion) arbenigol ar gyfer gwaith MENTER yn y cymunedau yn y Wladfa.*

## Argymhellion 2017

**1 Arolwg o waith y Cynllun Cymraeg.**
Gan na lwyddwyd i gwblhau unrhyw arolwg yn ystod 2017, y bwriad yw trafod gyda rhanddeiliaid y Cynllun - yng Nghymru ac ym Mhatagonia yn ystod Taith Arsylwi 2018 - gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion erbyn diwedd 2018.

**2 Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.**
Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu ac i gryfhau'r sector yma yn ystod 2018 gyda'r bwriad o gynyddu'r ddarpariaeth ym mhob cymuned gan gynnwys cynnig cyrsiau Blasu yn gyson er mwyn denu myfyrwyr ar gyfer y cyrsiau arferol - Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch.

**3 Cefnogi'r Ysgolion Dwyieithog**
Parhau i gefnogi'r Ysgolion Dwyieithog gyda chymorth ymarferol ac ariannol fel eu bod yn parhau i ffynnu a thyfu.

**4 Cyllid.**
Gan nad yw lefel ein cyllid wedi newid rhyw lawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y gobaith yw y gallwn weld gwellhad yn ein cyllid craidd fel ein bod yn gallu nid yn unig gryfhau'r hyn yr ydym yn ei wneud yn barod ond hefyd i gynllunio a gweithredu prosiectau penodol ychwanegol

**5 Hyfforddiant ac ansawdd.**
Byddwn yn parhau'r trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant er mwyn sefydlu rhaglen addasu cyrsiau newydd a chynllunio amserlen o hyfforddiant strwythuredig ar gyfer y tiwtoriaid lleol erbyn diwedd y flwyddyn hon.
Prif fwriad hyn yw gwella ar ansawdd y dysgu.

**6 Gwaith Menter Patagonia.**
Pwysleisio pwysigrwydd o barhau i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth bwysig yma ym mhob cymuned fel rhan o broses normaleiddio'r iaith yn nhalaith Chubut.



**Golygfeydd hyfryd ardal yr Andes**